Llywodraeth Cymru
Welsh Government

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

SAFONAU YMARFER A CHANLLAW YMARFER DA

# Adolygu a monitro Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 plentyn neu berson ifanc





# Diolchiadau

Mae'r safonau ymarfer a'r canllawiau arfer da hyn wedi'u cynhyrchu gan AFA Cymru. Maen nhw wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru ar ran Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau ar gyfer Plant.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r safonau hyn.

**Rydym yn diolch o galon i'r bobl a'r sefydliadau canlynol a chwaraeodd ran allweddol wrth ddrafftio'r safonau hyn. Nid ydym wedi nodi unrhyw unigolyn wrth ei enw gan fod cynifer ohonynt a gyfrannodd:**

1. Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r canlynol:
    - Penaethiaid gwasanaeth plant Cymru Gyfan
    - Cafcasss Cymru
    - Voices
    - Y Bont
    - Y Rhwydwaith Maethu
    - Grŵp nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal
    - Uwch gyfreithiwr awdurdod lleol
    - Swyddfa'r Comisiynydd Plant
    - Plant yng Nghymru
    - Cynrychiolaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO)
2. Y grŵp gorchwyl IRO, sy'n cynnwys Swyddogion Adolygu Annibynnol profiadol o bob cwr o Gymru
3. Grŵp IRO AFA Cymru
4. Gweithwyr cymdeithasol gofal plant, o ledled Cymru, a ymunodd mewn gweithdai yn y gogledd a'r de
5. Y Bont, a hwylusodd broses ymgynghori gyda rhieni biolegol, gofalwyr sy'n berthnasau a gofalwyr maeth
6. Voices, a hwylusodd broses ymgynghori gyda phobl ifanc gyda phrofiad o ofal, o grŵp adlais RCT a Sir Gaerfyrddin
7. Llysgenhadon Maethu (drwy'r Rhwydwaith Maethu)

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y safonau drafft gyda'r canlynol:

- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Y grŵp gorchwyl a gorffen
- Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)
- Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Y Rhwydwaith Maethu
- Penaethiaid gwasanaeth plant Cymru Gyfan
- Cafcass Cymru
- Ymgynghorydd cyfreithiol CAFCASS Cymru
- Llysgenhadon maethu
- Gweithwyr cymdeithasol gofal plant

# Cynnwys

**PENNOD 1** .......... 5
Beth yw diben y safonau a'r canllawiau arfer da hyn?

**PENNOD 2** .......... 7
Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i'r safonau a'r canllawiau arfer da hyn

**PENNOD 3** .......... 10
Diffinio rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol / Beth mae Swyddog Adolygu Annibynnol yn ei wneud?

**PENNOD 4** .......... 14
Swyddogaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol mewn perthynas â'r rhiant corfforaethol / Y Swyddog Adolygu Annibynnol yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu fel rhieni ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

**PENNOD 5** .......... 17
Cyfrifoldeb yr IRO ar gyfer monitro 'achos' plentyn neu berson ifanc / gwaith yr IRO i gadw llygad cyffredinol ar sut mae'r plentyn neu berson ifanc yn dod yn ei flaen

**PENNOD 6** .......... 26
Cyfrifoldeb yr IRO ar gyfer adolygu 'achos' plentyn neu berson ifanc / gwaith yr IRO i adolygu, ar adegau penodol, sut mae'r plentyn neu berson ifanc yn dod yn ei flaen

**PENNOD 7** .......... 34
Sut i sicrhau fod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu berson ifanc yn cael eu ceisio, eu clywed a'u gwireddu

**PENNOD 8** .......... 40
Rheoliadau adolygu amgen i'r rhai hynny a nodwyd yn rheoliad 39 CPPCR(W)R 2015

Rhestr o dermau a byrfoddau .......... 41

# PENNOD 1

## Beth yw diben y safonau ymarfer a'r canllawiau arfer da hyn?

**Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dechrau 'derbyn gofal' gan eu hawdurdod lleol ac yn cael ei leoli gyda gofalwr sy'n berthynas (aelod o'r teulu neu deulu agos), gofalwr maeth, yn cael ei leoli mewn cartref preswyl, yn cael ei leoli gartref gyda rhieni, neu'n cael ei leoli i'w fabwysiadu, yna mae'n rhaid penodi 'swyddog adolygu annibynnol' i'r plentyn neu berson ifanc. Mae'r IRO yn annibynnol i weithiwr cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc ac mae ganddo gyfrifoldebau penodol a nodir yng nghyfraith Cymru sy'n cwmpasu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.**

**Mae'r safonau ymarfer a'r canllawiau arfer da hyn yn nodi, yn fanwl, ym mha ffyrdd y dylai'r IRO fonitro ac adolygu a chefnogi cynllun gofal a chymorth plentyn neu berson ifanc. Mae hefyd yn nodi cyfrifoldebau'r awdurdod lleol wrth sicrhau fod yr IRO yn gallu cyflawni eu gwaith.**

### Pam mae gennym swyddogion adolygu annibynnol? – Yr IRO fel 'gwarcheidwad y cynllun gofal'

Cyn 2004 nid oedd gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu trosolwg annibynnol o adolygiad plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal. Roedd arfer yn amrywio, gyda rheolwyr tîm ar gyfer gweithiwr cymdeithasol y plentyn neu reolwyr tîm a wahoddwyd o dîm arall yn cadeirio'r adolygiad. Roedd rhai awdurdodau wedi cyflwyno'r elfen o annibyniaeth gyda swyddogion adolygu yn gynnar. Yn 2002 edrychodd Tŷ'r Arglwyddi (y Goruchaf Lys bellach) ar achos lle na lynwyd at gynllun gofal, oedd wedi'i gyflwyno i'r llys ar ddiwedd achos gofal. Ystyriodd Tŷ'r Arglwyddi p'un a oedd gan y llys bwerau i fonitro cynllun gofal plentyn neu berson ifanc unwaith y gwnaed gorchymyn gofal. Daethant i'r casgliad nad oedd unrhyw bwerau cyffredinol o'r fath i ddiystyru awdurdod lleol, ond y gellid herio awdurdod lleol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (am dorri Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – yr hawl i fywyd teuluol a phreifat). Ond roedd y cwestiwn yno o hyd: pwy fyddai'n gallu derbyn yr her ar ran y plentyn neu'r person ifanc?

Fel ymateb i'r achos hwn ac ers cyflwyno Deddf Plant 2004, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i benodi IRO, yn y lle cyntaf i 'fonitro perfformiad adolygiad y plentyn' ac mewn achos o dorri hawliau dynol y plentyn neu'r person ifanc, i gyfeirio achos y plentyn at Cafcass Cymru. Ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddod i rym yn 2016, **mae'r ddyletswydd bellach yn ymestyn i fonitro achos cyfan y plentyn, nid eu hadolygiad yn unig.**

### Statws y canllawiau hyn

Nodir rôl a swyddogaethau'r IRO a'r awdurdod lleol mewn perthynas â chynllunio gofal yn y canlynol:

1) Deddfwriaeth sylfaenol: mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi, yn adrannau 99 – 102, tair prif swyddogaeth. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn fanwl yn adrannau 5, 6 a 7. Rhaid cadw at y ddeddfwriaeth sylfaenol.
2) Is-ddeddfwriaeth: mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, rheoliadau 38 – 44, 53 – 54, yn nodi manylion rôl yr IRO o ran y tair prif swyddogaeth. Rhaid cadw hefyd at yr is-ddeddfwriaeth.
3) Cod Ymarfer: mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6, nawr yn ei ail fersiwn, Ebrill 2018, paragraffau 364 – 394, yn ymhelaethu ar y rheoliadau ac yn egluro beth sy'n rhaid ei wneud a beth y gellir neu dylid ei wneud o ran rôl a swyddogaethau'r IRO. Pan mae'r Cod Ymarfer yn nodi fod rhaid i rywbeth gael ei wneud, yna nid oes gan yr IRO neu'r awdurdod lleol unrhyw ddewis ond i ddilyn y Cod. Lle mae'r Cod yn nodi y gallai, neu y dylai rhywbeth gael ei wneud, yna, er bod rhaid i'r IRO a'r awdurdod lleol ystyried y Cod, nid ydynt yn gweithredu'n anghyfreithlon os nad ydynt yn glynu at y canllawiau a nodwyd.

Pam mae angen safonau ymarfer a chanllawiau arfer da pan fo tair haen o gyfraith a chanllawiau eisoes yn cwmpasu rôl a swyddogaethau'r IRO? Oherwydd bod hwn yn faes cymhleth o ran cyfraith ac arferion, sy'n ymwneud â bywydau a dyfodol rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymuned, sydd yn gofyn am ganllaw mwy manwl, i'r IRO eu hunain, ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant a phobl ifanc a'u rheolwyr ac ar gyfer 'rhieni corfforaethol', sef yr uwch reolwyr a'r aelodau etholedig (cynghorwyr) ar gyfer pob awdurdod lleol.

Mae gan y canllaw hwn ddwy ran wahanol, ond sydd yn rhyng-gysylltiedig:

1) **Safonau ymarfer:** y rhain yw'r safonau a ddefnyddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i arolygu awdurdod lleol. Bydd arolygiad yn ystyried y safonau a gweld p'un a yw'r awdurdod lleol yn eu diwallu. Nid ydynt yn safonau ar sail statudol, gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf, y Rheoliadau neu'r Cod Ymarfer, ond maen nhw'n safonau sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a byddant yn cynorthwyo'r IRO, awdurdodau lleol ac arolygwyr i gyflawni a chynnal y safonau uchaf posibl wrth gefnogi pobl ifanc mewn gofal;
2) **Canllaw arfer da:** unwaith eto, nid oes gan y canllaw hwn awdurdod statudol ond mae'n nodi, i'r holl rai sy'n ymwneud â'r plentyn neu berson ifanc, sut i gyflawni a chynnal y safonau uchel hyn.

## Ar gyfer pwy mae'r safonau ymarfer a'r canllawiau hyn?

Maen nhw ar gyfer y canlynol:

**IRO a'u rheolwyr**, sydd angen gwybod beth yw'r arferion gorau sydd ar gael er mwyn cyflawni eu rôl i eithaf eu gallu;

**Gweithwyr cymdeithasol plant a phobl ifanc a'u rheolwyr**, sydd angen bod yn glir am eu rôl eu hunain wrth ymarfer cyfrifoldeb rhieni, naill ai o dan delerau gorchymyn gofal neu orchymyn gofal dros dro, neu ddefnyddio'r awdurdod a roddwyd iddynt gan y rhieni biolegol pan fo'r plentyn yn cael ei letya o dan s76 SSWB(W)A. Mae gweithwyr cymdeithasol hefyd angen gwybod beth i'w ddisgwyl gan yr IRO o ran ymwneud ag achos plentyn neu berson ifanc;

**Rhieni corfforaethol**, yr ymadrodd a ddefnyddir ar gyfer y cydgyfrifoldeb sydd gan awdurdod lleol tuag at blentyn neu berson ifanc sydd yn derbyn gofal, gan gynnwys aelodau etholedig (cynghorwyr), uwch swyddogion, yr holl weithwyr perthnasol ac asiantaethau partner.

**Y llysoedd a Cafcass Cymru**, er mwyn iddynt gael dealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir gan IRO yn ystod achos cyfreithiol cyhoeddus gofal plant.

Y bobl y mae'n berthnasol iddynt yw:

- **Y plentyn neu'r person ifanc**, y person mwyaf pwysig yn y broses. Mae penodau 5, 6 a 7 yn cynnwys syniadau ynglŷn â sut i wneud rôl yr IRO yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i'r person ifanc, ar sail monitro ac yn ystod y broses adolygu, gan hwyluso ac annog cyfranogiad ac ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r person ifanc ei hun;
- **Rhieni a theulu estynedig y plentyn/person ifanc**, y bydd angen eu cynnwys yn y broses adolygu, cydnabod a pharchu eu cyfrifoldeb rhieni eu hunain, a gwrando ar eu barn, dymuniadau a'u teimladau;
- **Darpar rieni mabwysiadol y plentyn/person ifanc** (os bydd y plentyn yn cael ei leoli i'w fabwysiadu);
- **Gofalwyr maeth y plentyn/person ifanc**, y dylid eu hystyried fel gweithwyr proffesiynol yng nghyd-destun adolygiad;
- **Gweithiwr allweddol y plentyn/person ifanc** os mewn gofal preswyl;
- **Pobl eraill yn bwysig i'r plentyn/person ifanc** (er enghraifft darparwyr addysg, iechyd a darparwyr eiriolaeth statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal).

Noder y defnyddir y term 'achos plentyn' gan ei fod yn adlewyrchu'r geiriad yn y ddeddfwriaeth sylfaenol (Deddf 2014). Fodd bynnag, nid yw'r term yn adlewyrchu naill ai ysbryd y Ddeddf na'r safonau hyn a dim ond lle y bo angen y bydd yn cael ei ddefnyddio.

# PENNOD 2

## Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i'r safonau ymarfer a'r canllawiau arfer da hyn

**Mae nifer o bobl yn ymwneud â bywyd plentyn neu berson ifanc. Pan fydd person ifanc hwnnw yn dod i dderbyn gofal gan awdurdod lleol yna mae'r nifer hwnnw'n cynyddu'n sylweddol. Diben y safonau a'r canllawiau hyn yw cadw'r person ifanc yn ganolog i'r holl waith cynllunio.**

Mae nifer o fframweithiau cyfreithiol sy'n berthnasol i blentyn neu berson ifanc sy'n dod i dderbyn gofal ac mae'r fframweithiau hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i fod y person pwysicaf yn y broses:

1) Y canlyniadau llesiant a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

   **Canlyniadau llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc:**

   - Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
   - Hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol
   - Hybu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
   - Cynnal neu ddatblygu perthnasau teuluol neu berthnasau personol arwyddocaol eraill
   - Cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, hyfforddiant a hamdden
   - Datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol a chymryd rhan yn y gymuned leol
   - Llesiant cymdeithasol ac economaidd (gan gynnwys peidio â byw mewn tlodi)
   - Byw mewn llety addas

   Rhaid i'r IRO a'r awdurdod lleol ystyried rôl yr IRO wrth fwrw ymlaen â'r canlyniadau personol hyn ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc unigol.

2) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae CCUHP yn rhan o gyfraith Cymru ac mae erthygl 12, 'Mae gan blant yr hawl i ddweud beth maen nhw'n meddwl dylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, a bod eu barn yn cael ei ystyried,' yn ganolog.

   Cyfeirir at Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc gyda phob safon. Fe'u nodir, ar y dudalen ganlynol, yn llawn.

3) Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r Confensiwn hwn hefyd yn rhan o gyfraith Cymru a chyfraith y DU ac mae erthygl 6 (yr hawl i dreial teg) ac erthygl 8 (yr hawl i fywyd teuluol a phreifat) yn berthnasol drwy gydol y safonau hyn.

4) Pryd bynnag y bydd llys teulu, neu asiantaeth mabwysiadu, yn ystyried plentyn yna mae'r egwyddorion a nodwyd yn s1 Deddf Plant 1989 neu s1 Deddf Plant a Mabwysiadu 2002 yn berthnasol.



Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc

| | **Mae hyn yn golygu:** | **Byddwn ni yn:** |
|---|---|---|
| 1. Gwybodaeth | • Mae gennych chi hawl i wybodaeth sydd yn hawdd ei deall ac yn eich galluogi i wneud penderfyniad gwybodus | • Darparu gwybodaeth o ansawdd da, clir a hygyrch<br>• Rhoi gwybod i chi pwy sydd am wrando a rhoi gwybod pa wahaniaeth y gallai eich cyfranogiad ei wneud |
| 2. Eich dewis chi | • Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi | • Rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis p'un a ydych chi am gymryd rhan |
| 3. Dim gwahaniaethu | • Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddynt yr hawl i gael eu trin yn deg | • Herio gwahaniaethu<br>• Darparu amrywiaeth o gyfleoedd a chefnogaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc |
| 4. Barch | • Mae gennych yr hawl i ddweud eich dweud. Mae eich barn yn bwysig a bydd yn cael ei barchu | • Gwrando ar eich barn, profiadau a syniadau ac yn eich cymryd o ddifrif<br>• Gweithio gyda chi ar y pethau rydych chi'n dweud sydd yn bwysig<br>• Gwerthfawrogi'r hyn sydd gennych i'w gynnig |
| 5. Chi'n cael rhywbeth allan ohono | • Mae gennych chi'r hawl i ddysgu ac i fod y gorau y gallwch fod<br>• Byddwch yn cael cyfleoedd i weithio gydag eraill a gwneud gwahaniaeth<br>• Rydym am i chi ymwneud â phrofiadau cadarnhaol | • Gweithio gyda chi mewn ffyrdd diogel, hwyliog a phleserus<br>• Gwneud y mwyaf o'r hyn rydych chi'n ei wybod a gwneud pethau sy'n datblygu eich hyder a'ch sgiliau |
| 6. Adborth | • Mae gennych chi'r hawl i wybod pa wahaniaethau rydych chi wedi eu gwneud a chael gwrandawiad i'ch syniadau | • Bob amser yn sicrhau eich bod yn cael adborth mewn amser y cytunwyd arno<br>• Dweud wrthych sut y defnyddiwyd eich syniadau a pham<br>• Dweud wrthych beth sy'n digwydd nesaf |
| 7. Gweithio'n well i chi | • Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt | • Gweithio gyda chi a dysgu sut y gallwn wneud pethau'n well<br>• Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau |

## Adolygiadau lle mae awdurdod i leoli i fabwysiadu

Unwaith y bydd plentyn yn dod yn destun gorchymyn lleoli neu unwaith y bydd eu rhieni wedi rhoi caniatâd iddynt gael eu mabwysiadu, nid yw'r dyletswyddau adolygu a nodwyd yn SSWB(W)A bellach yn berthnasol ac mae dyletswyddau newydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005. Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu hailadrodd ym Mhennod 8 o'r canllaw hwn. Er bod y plentyn yn parhau i fod yn derbyn gofal, mae'r gorchymyn lleoli yn newid ffocws yr adolygiad. Yn ystod adolygiadau a gynhaliwyd o dan yr AA(W) R, bydd y cynllun mabwysiadu a'r cynllun cefnogi mabwysiadu, yn hytrach na Rhan 6 y cynllun gofal a chymorth, yn cael eu hadolygu. Mae'r trefniadau adolygu hyn yn parhau drwy gydol y lleoliad gyda darpar rieni mabwysiadol a nes i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud.

www.adoptcymru.com



## Themâu o ymchwil ac ymgynghoriadau gyda phobl ifanc yng Nghymru a gynhaliwyd wrth greu'r safonau a'r canllawiau arfer da hyn

- Mae pobl ifanc am i'w barn gael ei pharchu (a gall hynny olygu bod yn onest gyda nhw ynghylch eu terfynau o ran gwneud penderfyniadau);
- Mae pobl ifanc eisiau gwrandawiad (ac i gamau y cytunwyd arnynt ddilyn fel tystiolaeth eu bod wedi cael gwrandawiad);
- Dylai pobl ifanc wybod pwy yw'r IRO sy'n gyfrifol am adolygu eu cynllun gofal a chymorth;
- Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi cael amser gyda'r IRO cyn ac ar ôl yr adolygiad;
- Ni ddylai'r adolygiad o'r cynllun gofal a chymorth orfod bod yn gyfarfod. Mae adborth yn dangos nad yw'n anarferol, er enghraifft, i faterion iechyd rhywiol gael eu trafod gydag amrywiaeth o bobl yn bresennol, fel athrawon. Dylid rhoi mwy o feddwl i ba wybodaeth a rennir gyda phwy. Hefyd roedd pryder bod nifer y bobl sy'n ymwneud fel arfer â chyfarfod adolygu yn annymunol ac y gallai ymdrechion i ymgysylltu fod yn nawddoglyd;
- Gallai IRO fod yn fwy creadigol am sut maen nhw'n cynnal adolygiadau (maen nhw angen rhoi mwy o ystyriaeth i ddefnyddio technoleg). Er enghraifft, mae rhai pobl ifanc yn meddwl fod posibilrwydd o ddefnyddio skype er mwyn i bobl gysylltu gyda'r rhan o'r cyfarfod oedd yn berthnasol iddyn nhw;
- Dylai pobl ifanc dderbyn adborth clir ar ôl y cyfarfod am yr hyn a gytunwyd (hyd yn oed os nad dyma beth yr oeddent wedi ei obeithio). Mae rhai pobl ifanc yn teimlo y dylen gael y cofnodion, ond yn deall na allant o reidrwydd gael mynediad at wybodaeth sydd am rywun arall, e.e. y rhiant/rhieni biolegol;
- Os oes cyfarfod, mae pobl ifanc eisiau barn ynghylch pwy ddylai fod yn bresennol ac am beth. Os byddan nhw'n cwblhau dogfennau ymgynghori, cyn yr adolygiad, mae angen iddynt fod yn berthnasol i sefyllfa'r bobl ifanc a dylent fod yn glir o ran beth y gellir ei ystyried neu beth na ellir ei ystyried, e.e. cyswllt gyda'r teulu biolegol;
- Mae pobl ifanc am gael barn ynghylch lle y dylid cynnal cyfarfod (os bydd cyfarfod). Maen nhw'n arbennig o anghyfforddus gyda chyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol;
- Dylai pobl ifanc ddeall beth yw eiriolwr a chael y cyfle i gael cefnogaeth gan un.

# PENNOD 3

## Diffinio rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol – Beth mae Swyddog Adolygu Annibynnol yn ei wneud?

**Mae'n bosibl y bydd dryswch ynghylch yr hyn mae'n rhaid, y dylai neu y gallai IRO ei wneud. Mae penodau diweddarach yn rhoi mwy o fanylion am y rôl ond nod y bennod hon yw ei gwneud yn glir pa bwerau sydd gan yr IRO a pha bwerau nad oes ganddynt. Mae angen i'r person ifanc wybod, pan fyddant yn cyfarfod neu'n siarad gyda'u IRO a/neu yn mynychu cyfarfod adolygu, beth yw perthynas yr IRO gyda'r gweithiwr cymdeithasol a rheolwr y gweithiwr cymdeithasol; gan bwy mae'r gair olaf pan fo rhaid gwneud penderfyniad?**

<table>
<tr><th>BETH MAE'R IRO YN EI WNEUD</th><th>PETHAU NAD YW'R IRO YN EU GWNEUD</th></tr>
<tr><td>Monitro achos y plentyn</td><td>Rheoli achos y plentyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Swyddogaeth yr IRO yw monitro achos y plentyn, hynny yw cadw trosolwg, nid mewn cyfarfodydd adolygu ffurfiol yn unig, ond rhwng cyfarfodydd adolygu hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r IRO yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch achos plentyn; gwaith gweithiwr cymdeithasol y plentyn a rheolwyr yw hynny. Mewn gwirionedd, 'argymhellion' i'r awdurdod lleol yw'r 'penderfyniadau' a wneir mewn adolygiad. Defnyddir y gair 'penderfyniadau' drwy gydol y canllawiau gan ei fod yn adlewyrchu geiriad y rheoliadau a'r Cod Ymarfer.</td></tr>
<tr><td>Cydlynu gyda/cynghori'r gweithiwr cymdeithasol</td><td>Rheoli'r gweithiwr cymdeithasol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd yr IRO am ddatblygu perthynas waith dda gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn, ac, mewn rhai amgylchiadau, bydd am allu cynghori'r gweithiwr cymdeithasol. Fodd bynnag, mae gan y gweithiwr cymdeithasol ei reolwr ei hun, sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Nid yw'r IRO yn cymryd y rôl o reoli'r gweithiwr cymdeithasol</td></tr>
<tr><td>Adolygu cynllun gofal a chymorth y plentyn yn drwyadl</td><td>Dyfeisio cynllun gofal a chymorth y plentyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yn ystod y broses adolygu (gweler isod) mae gan yr IRO ddyletswydd i edrych ar sut ofal mae'r plentyn yn ei dderbyn a sut mae'r cynllun gofal yn symud yn ei flaen, ond nid yw'r IRO yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chynllunio gofal; yn y pen draw mae'r cynllun gofal yn benderfyniad ar gyfer y gweithiwr cymdeithasol a'r rheolwr gan mai nhw yw cynrychiolwyr yr awdurdod lleol sydd naill ai â chyfrifoldeb rhieni ar gyfer plentyn neu berson ifanc neu sy'n gweithredu gyda chaniatâd y rhieni biolegol o dan s76 SSWB(W)A</td></tr>
<tr><td>Cyfeirio at uwch reolwyr drwy broses datrys anghydfod/cyfeirio at Cafcass Cymru os bydd methiant sylweddol yn y cynllun gofal</td><td>Dirymu'r awdurdod lleol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gan nad oes gan yr IRO y pŵer i ddirymu proses gwneud penderfyniadau'r awdurdod lleol, mae'n rhaid iddynt gael rhyw ffordd o ddangos eu bod yn pryderu am gynnydd achos plentyn neu berson ifanc neu benderfyniad a wnaed mewn perthynas â'r cynllun gofal a chymorth. Dylai'r awdurdod lleol gael proses datrys anghydfodau y gallai'r IRO ei defnyddio er mwyn gwneud uwch reolwyr yn yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'u pryderon, gyda'r bwriad o'u datrys. Os nad yw'r broses fewnol honno yn gweithio, yna gallai'r IRO gyfeirio at Cafcass Cymru (gweler y manylion isod)</td></tr>
<tr><td>Datblygu perthynas benodol gyda'r plentyn/person ifanc</td><td>Tanseilio rôl gweithiwr cymdeithasol y plentyn/person ifanc</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y gweithiwr cymdeithasol yw'r person sy'n ymarfer cyfrifoldeb rhieni ac mae angen datblygu perthynas gyda'r plentyn neu berson ifanc. Er bod yr IRO weithiau'n bwysig fel person cyson ym mywyd y plentyn neu berson ifanc am nifer o flynyddoedd, ni ddylai gymryd y rôl 'rhiant' y dylai gweithiwr cymdeithasol y plentyn ei gael.</td></tr>
</table>

## Pa ffactorau eraill sy'n effeithio ar swyddogaeth yr IRO?

1) Mae'n rhaid i'r IRO fod yn **gymwys a medrus**, fel y nodwyd ym mharagraffau 392 Cod Ymarfer Rhan 6.

2) Mae'n rhaid i'r IRO fod yn **annibynnol**. Gweler paragraffau 386 a 387 Cod Ymarfer Rhan 6.

   383: Mae annibyniaeth yr IRO yn hanfodol i'w galluogi i herio arfer gwael yn effeithiol. Nid yw Rheoliadau CPPCR(W) yn rhagnodi safle'r IRO yn yr awdurdod lleol ond maen nhw'n rhagnodi lefelau gofynnol o annibyniaeth.

   384: Mae categorïau penodol o bersonau y gall yr awdurdod lleol eu penodol i gyflawni swyddogaeth IRO (Rheoliad 54(3) 0 yn Rheoliadau CPPCR(W)). Y rhain yw:

   - Person sy'n ymwneud â pharatoi cynllun gofal a chymorth y plentyn neu reoli achos y plentyn
   - Gweithiwr cymdeithasol neu ymgynghorydd personol y plentyn
   - Cynrychiolydd yr awdurdod lleol a benodwyd i ymweld â'r plentyn
   - Person sydd â chyfrifoldebau rheoli ar gyfer unrhyw un o'r uchod
   - Person sydd â rheolaeth dros yr adnoddau a ddyrannwyd i'r achos.

   Mae'r IRO yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol, ond mae ei rôl statudol yn annibynnol ar yr awdurdod lleol. Er mwyn cynnal annibyniaeth mae pawb sy'n rheoli ac yn cefnogi'r IRO a'r IRO ei hun angen gweithio mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hybu'r annibyniaeth hwnnw.

   Mae'n bwysig sicrhau fod yr holl gyfathrebu rhwng yr IRO ac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod lleol (gweithiwr cymdeithasol/rheolwr tîm/rheolwr gwasanaeth/pennaeth gwasanaeth) yn cael ei gynnal mewn ffordd ffurfiol ac yn cael eu cofnodi'n gywir. Mae rhai timau IRO a thimau gwaith cymdeithasol yn rhannu'r un gofod swyddfa, neu swyddfa gerllaw. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid cymryd gofal eithriadol i sicrhau fod cyfathrebu yn cael ei gadw ar lefel proffesiynol ac yn cael ei gofnodi bob amser. Nid oes lle am 'sgwrs' anffurfiol gan y gallai hyn gyfaddawdu annibyniaeth y rôl neu o leiaf ymddangos yn gydfwriadol i blant neu bobl ifanc neu rieni biolegol.

   Hefyd, mae angen i IRO a gweithwyr cymdeithasol feddwl am sut y gallai'r plentyn neu berson ifanc, eu teulu a'u gofalwyr ddehongli annibyniaeth IRO os, er enghraifft, y byddant yn cyrraedd cyfarfod adolygu yn yr un car, neu'n ymddangos yn gyfeillgar iawn gyda'i gilydd.

3) Mae rôl yr IRO yn cynnwys **cyfrifoldeb personol** dros gyflawni ei swyddogaethau. Mewn achos yn 2012, A & S v Lancashire CC [2012] EWHC 1689 (Fam) eglurwyd y gallai'r IRO gael ei ddal yn bersonol gyfrifol am:

   a) Nodi os yw hawliau dynol plentyn neu berson ifanc yn cael eu torri;

   b) Sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gweithredu ar argymhellion yr adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal;

   c) Cyfeirio at CAFCASS os yw hawliau dynol y plentyn/person ifanc yn cael eu torri neu os oes argymhellion sylweddol yn yr adolygiad nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith.

   Mae cyfrifoldeb personol yn cynnwys y posibilrwydd o fod yn atebol yn bersonol am dalu iawndal (digolllediad) i'r plentyn os yw'r IRO yn atebol am dorri ei (d)dyletswyddau statudol.

4) Mae gan yr IRO rôl i **fonitro'r awdurdod lleol** fel rhiant corfforaethol (gweler Pennod 4 yn y safonau hyn a pharagraff 369 Cod Ymarfer Rhan 6).

## SUT MAE'R SAFONAU WEDI'U NODI

Mae'r Safonau (amlygwyd mewn porffor) wedi'u nodi yn y pedair pennod ganlynol. Mae Pennod 4 yn ymdrin â swyddogaeth yr IRO mewn perthynas â rhianta corfforaethol. Trafodir y broses fonitro ym Mhennod 5; mae monitro'n ymwneud â'r broses barhaus o fonitro sy'n digwydd rhwng y broses adolygu. Mae Pennod 6 yn edrych ar y broses adolygu ffurfiol ac mae Pennod 7 yn ymdrin â chyfrifoldebau penodol sydd gan yr IRO a'r awdurdod lleol wrth geisio barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn/person ifanc. Mae rhestr o'r safonau wedi'i nodi ar y dudalen ganlynol:

**Pennod 4**

Swyddogaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol mewn perthynas â'r rhiant corfforaethol/Y Swyddog Adolygu Annibynnol yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu fel rhieni ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

1) Mae'r IRO yn monitro perfformiad yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol, ac os yw ef/hi yn nodi patrymau sy'n peri pryder, dylai eu dwyn i sylw'r uwch reolwr dan sylw.

2) Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau fod gan yr IRO gapasiti i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a rheoliadol.

3) Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau fod yr IRO yn cael goruchwyliaeth, hyfforddiant a datblygiad.

**Pennod 5**

Cyfrifoldeb yr IRO ar gyfer monitro 'achos' plentyn neu berson ifanc/gwaith yr IRO i gadw llygad cyffredinol ar sut mae'r plentyn neu berson ifanc yn dod yn ei flaen

4) Mae'r IRO yn monitro achos y plentyn neu'r person ifanc yn barhaus ac yn sicrhau fod y cynllun gofal a chymorth yn parhau i fod er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

5) Mae gan bob awdurdod lleol yn ei bolisïau eglurder o ran pwy sydd yn ymgymryd â pha rolau/swyddogaethau wrth oruchwylio/monitro cynllun gofal plentyn neu berson ifanc.

6) Mae'r IRO yn sicrhau fod y broses fonitro yn atal unrhyw achos o adael i bethau lithro yng nghynllun gofal y plentyn.

7) Mae'n glir ym mholisïau plant sy'n derbyn gofal pob awdurdod lleol o ran pa fethiant arwyddocaol neu newidiadau i gynllun y dylid eu cyfeirio at yr IRO (a sut mae'r methiant/newid hwnnw'n cael eu cyfleu i'r IRO).

8) a) Mae gan bob awdurdod lleol broses datrys anghydfod sy'n rhoi manylion am sut y rhoddir sylw i bryderon arwyddocaol sy'n cael eu codi gan yr IRO ynghylch cynllun gofal plentyn neu berson ifanc.

   b) Mae'r IRO yn sicrhau, os oes pryderon sylweddol mewn perthynas â chynllun gofal plentyn neu berson ifanc, eu bod yn cael eu dwyn i sylw'r uwch reolwr priodol mewn ffordd glir ac amserol.

9) Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau fod gan yr IRO fynediad at gyngor cyfreithiol amserol sydd yn annibynnol ar yr awdurdod lleol, os tybir fod angen hynny gan yr IRO, ar drydydd cam y broses datrys anghydfodau.

**Pennod 6**

Cyfrifoldeb yr IRO ar gyfer adolygu 'achos' plentyn neu berson ifanc/gwaith yr IRO i adolygu, ar adegau penodol, sut mae'r plentyn neu berson ifanc yn dod yn ei flaen

10) Mae'r awdurdod cyfrifol yn sicrhau fod cynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn neu berson ifanc yn cael ei adolygu yn unol â rheoliadau a'r cod ymarfer.

11) Mae'r IRO yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r plentyn neu'r person ifanc cyn yr adolygiad.

12) Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn yr adolygiad.

13) Mae'r IRO yn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr a chyfranwyr i'r broses adolygu yn ddigon gwybodus ac wedi cael eu paratoi.

14) Bydd yr awdurdod cyfrifol yn cytuno/cadarnhau'r penderfyniadau a wnaed yn yr adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn amserlen resymol. Os na chytunir ar/cadarnheir penderfyniadau gan reolwyr perthnasol, yna bydd yr IRO yn cael ei hysbysu am y penderfyniad hwnnw.

**Pennod 7**

Sut i sicrhau fod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu berson ifanc yn cael eu ceisio, eu clywed a'u gwireddu

15) Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall eu hawl i ofyn am adolygiad o'u cynllun gofal.

16) a) Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall rôl pawb sy'n cymryd rhan yn y broses adolygu. Mae'r plentyn/person ifanc yn deall eu hawl i gael cynnig gweithredol i eiriolaeth ac y darperir eiriolaeth os oes angen;

   b) Mae'r IRO yn sicrhau bod unrhyw blentyn neu berson ifanc â dealltwriaeth ddigonol yn ymwybodol o'u hawl i wneud cwyn;

   c) Mae'r IRO yn sicrhau bod unrhyw blentyn neu berson ifanc â dealltwriaeth ddigonol yn ymwybodol o'u hawl i wneud cais, gydag absenoldeb, o dan Ddeddf Plant 1989;

   ch) Mae'r IRO yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn ystyried, mewn amgylchiadau priodol, penodi ymwelydd annibynnol

17) Mae'r IRO yn sicrhau yr ymgynghorir gyda'r plentyn neu berson ifanc ymlaen llaw am bwy ddylai gyfrannu at yr adolygiad o'u cynllun gofal a chymorth ac os bydd cyfarfod yn cael ei gynnal, y lleoliad a'u bod yn gyfforddus gyda'r rhai hynny sy'n mynychu.

18) Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn neu berson ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn y broses adolygu.

19) Mae'r IRO yn ystyried dull cyfathrebu dewisol y plentyn neu berson ifanc ac yn ceisio bod yn greadigol yn y ffordd mae'n rheoli'r adolygiad, gan gynnwys ystyried technolegau newydd.

# Sut i ddefnyddio'r safonau a'r canllawiau arfer da

O dan bob safon unigol, wedi'i ysgrifennu mewn porffor, mae blwch sydd yn nodi arfer da – dyma'r ffyrdd y gall yr IRO, y gweithiwr cymdeithasol a'r rheolwr, a'r 'rhiant corfforaethol' arddangos eu bod yn bodloni'r safon benodol honno. Ar y dudalen gyferbyn mae'r rhannau perthnasol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol wedi'u nodi.

Ar waelod y dudalen mae syniadau ar gyfer arfer da a sylwadau gan bobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, rhieni biolegol a phobl eraill â diddordeb.

Nid yw'r safonau ymarfer a'r canllawiau hyn yn cwmpasu beth y dylid eu cynnwys mewn adolygiad plentyn/person ifanc yn gynhwysfawr – nid dyna yw eu diben. Mae manylion am yr holl elfennau i'w cynnwys mewn adolygiad yn cael eu nodi yng Nghod Ymarfer Rhan 6. Mae'r ddogfen hon yn ategu'r Cod ymarfer; nid yw'n ei ddisodli.



# PENNOD 4

## Swyddogaeth yr IRO mewn perthynas â'r rhiant corfforaethol a / neu Yr IRO yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu fel rhieni ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

### SAFON

1. Mae'r IRO yn monitro perfformiad yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol, ac os yw ef/hi yn nodi patrymau sy'n peri pryder, dylai eu dwyn i sylw'r uwch reolwr perthnasol dan sylw

**Ffyrdd o sicrhau bod yr IRO yn cael ei alluogi i fonitro'r rôl rhianta corfforaethol**

1.1 Presenoldeb IRO mewn cyfarfodydd rhianta corfforaethol a rhoi'r gallu/gofod iddo herio patrymau sy'n peri pryder

1.2 Mynychu paneli gofal parhaol neu brosesau eraill, cymryd rhan yn yr adolygiad pedwar mis er mwyn sicrhau bod cynllun parhad ar waith sy'n atal achosion o adael i bethau lithro

1.3 Cyfarfodydd tîm IRO i drafod patrymau sy'n peri pryder sydd yna'n cael eu cyfeirio i gyfarfodydd uwch reolwyr

1.4 Adroddiadau rheolaidd i uwch reolwyr, gyda data'n ymgorffori gwybodaeth meintiol ac ansoddol ar symudiadau lleoliad 'Pan Fyddaf Yn Barod', lleoliad y tu allan i'r ardal, plant sy'n disgwyl am leoliadau mabwysiadu, ac ati.

1.5 Cyswllt rheolaidd rhwng y tîm IRO ac uwch reolwyr

### Arfer Da

Mewn llawer o awdurdodau mae cynrychiolaeth IRO ar y panel rhianta corfforaethol. Os bydd y cyfarfodydd hyn yn digwydd yn ystod gwyliau'r ysgol gall plant fynychu.

Ym Mhowys mae gan IRO gynrychiolaeth ar dîm y rheolwyr gweithredol a gallant ddod â themâu neu bryderon i'r cyfarfodydd hynny. Mae gan Gonwy drefniant tebyg.

Yng Nghaerffili mae cynrychiolaeth IRO yng nghyfarfodydd y panel parhad a chyfarfodydd yr adolygiad mabwysiadu

Yn Abertawe mae'r rheolwr IRO yn mynychu cyfarfodydd uwch berfformiad misol er mwyn rhoi adborth ar themâu a materion yn ymwneud ag ansawdd.

Cod Ymarfer paragraff 371: Mae cyfrifoldebau'r IRO yn cynnwys:

- Monitro gweithgarwch yr awdurdod lleol sy'n gweithredu fel rhiant corfforaethol da

Paragraff 385 Cod Ymarfer: 'Mae gan yr IRO ddyletswydd i fonitro perfformiad swyddogaethau'r awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol ac i nodi unrhyw feysydd o arfer gwael. Dylai hyn gynnwys nodi'r patrymau sy'n peri pryder sy'n dod i'r amlwg nid yn unig gan blentyn unigol, ond hefyd yn fwy cyffredinol ym mhrofiad cyfunol eu plant sy'n derbyn gofal. Lle nodir y pryderon mwy cyffredinol hyn am ddarpariaeth y gwasanaeth, dylai'r IRO roi gwybodaeth i'r uwch reolwyr ar unwaith am y pryderon hyn.'

Paragraff 369 Cod Ymarfer: 'Dylai'r IRO ddod ag elfen o wrthrychedd a goruchwyliaeth i ymarfer a gwneud penderfyniadau wrth fonitro cynllun gofal a chymorth Rhan 6 a gwella cyfleoedd bywyd pob plentyn. Mae gan yr IRO rôl bwysig o ran sicrhau bod gan awdurdod lleol ymagwedd gyson tuag at ofal plant y mae'n gyfrifol yn gorfforaethol amdanynt.'

UNCRC, erthygl 12 / NPS: Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt.

Byddwn ni yn:

- Gweithio gyda chi a dysgu sut y gallwn wneud pethau'n well
- Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau

## SAFON

2. Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau fod gan yr IRO gapasiti i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a rheoliadol

2.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 wedi gosod y dyletswyddau canlynol ar yr IRO:

- S100(1)(a) SSWBA 2014: 'Monitro'r perfformiad gan yr awdurdod lleol o ran ei swyddogaethau mewn perthynas ag achos y plentyn'. Mae'r ddyletswydd hon yn ymestyn y rôl y tu hwnt i'r adolygiad statudol ac, os bydd yn cael ei gyflawni'n ddigonol, yn cynnwys amser ac adnoddau (gweler pennod 5). Ers achos A & S v Lancashire CC [2012] EWHC 1689, mae'r llys teulu wedi gosod disgwyliadau uchel a chyfrifoldeb personol ar yr IRO ar gyfer atal achosion o adael i bethau lithro sy'n arwain at dorri hawliau dynol y plentyn/person ifanc;
- Rheoliad 42(1)(b) CPPCR(W)R 2015: y ddyletswydd i siarad gyda'r plentyn yn breifat am y materion i'w hystyried yn yr adolygiad. Gweler Pennod 6.

2.2 Yn ogystal, mae cydymffurfio â'r CCUHP yn gofyn i'r IRO sicrhau cyfranogiad ystyrlon gan blant a phobl ifanc. Gweler Pennod 7.

2.3 Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod llwythi achosion unigol yn adlewyrchu'r dyletswyddau hyn a galluogi'r IRO i berfformio ei rôl yn unol â'r SSWB(W) A, yr ECHR a'r CCUHP.

2.4 Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried p'un a oes angen rhywun i gymryd cofnodion, lle mae adolygiad cymhleth o gynllun gofal a chymorth.

S7(2) SSWB(W)A: Mae'n rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn... roi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn...

Paragraff 367 Cod Ymarfer: Mae'r Ddeddf yn cyflwyno newidiadau fydd yn galluogi'r IRO i gael trosolwg mwy effeithiol ac annibynnol o achos y plentyn, fel bod cynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn yn cynrychioli ymateb effeithiol i'r anghenion a aseswyd ar gyfer y plentyn ac yn parchu gonestrwydd ac urddas y plentyn

UNCRC, erthygl 12 / NPS: Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt.

Byddwn ni yn:

- Gweithio gyda chi a dysgu sut y gallwn wneud pethau'n well
- Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau

### Arfer Da

Yng Nghaerffili, darperir cofnodwr mewn adolygiadau os oes angen, lle mae cymhlethdod neu grŵp mawr o frodyr a chwiorydd.

'Mae yna nifer o ffyrdd gwahanol i gynnwys plant a phobl ifanc yn yr adolygiad o'u cynllun gofal a chymorth. Dylai'r IRO fod yn greadigol a dylid cynnal yr adolygiad i fodloni anghenion yr unigolyn. Bydd hyn yn cymryd amser, nid yr un broses i bawb yn unig'

IRO

## SAFON

3. Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau fod yr IRO yn cael goruchwyliaeth, hyfforddiant a datblygiad

3.1 Dylai'r IRO ystyried y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol a Y Gweithiwr Cymdeithasol, Canllawiau Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

3.2 Dylai pob IRO gael mynediad at oruchwyliaeth gwaith cymdeithasol. Os nad yw rheolwr yr IRO yn gallu darparu hynny, yna dylai'r awdurdod lleol sicrhau ei fod ar gael

3.3 Fel gweithwyr cymdeithasol cymwys, mae pob IRO angen cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad sy'n berthnasol i'r rôl

3.4 Mae rôl unigryw yr IRO yn gofyn iddynt fod â gwybodaeth gyfoes am arfer cyfredol, cyfraith achos a thueddiadau mewn gwaith cymdeithasol

3.5 Dylai IRO ddefnyddio cyfleoedd ôl-gymhwyso a argymhellir ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, fel y nodwyr yn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

3.6 Dylai hyfforddiant unigryw i rôl yr IRO, er enghraifft, manteisio i'r eithaf ar y broses datrys anghydfod, fod ar gael, er mwyn sicrhau fod yr IRO yn gallu diwallu'r profiad sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau

Rheoliad 54 CPPCR(W)R (Cymwysterau a phrofiad swyddogion adolygu annibynnol)

Paragraff 392 Cod Ymarfer: Mae gofyn i IRO gael cymwysterau a phrofiad penodol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau statudol (rheoliad54 CPPCR(W)R). Dylai'r IRO fodloni'r canlynol:

- fod wedi cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol gyda Chyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru bellach), Rhan 16 y gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal o dan Erthygl 5 Gorchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2001, neu mewn cofrestr gyfatebol o dan y gyfraith yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon
- gallu darparu tystiolaeth o brofiad gwaith cymdeithasol perthnasol digonol ym maes gofal cymdeithasol plant er mwyn gallu cyflawni swyddogaethau'r IRO
- meddu ar y gallu i gyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc, yr hyder a'r gallu i herio uwch reolwr, a dealltwriaeth drylwyr o'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal, gan gynnwys gwybodaeth am reoliadau perthnasol
- meddu ar ddealltwriaeth ymarferol drylwyr o'r broses gyfreithiol a'r materion cysylltiedig pan fydd awdurdod lleol yn gwneud cais am orchymyn gofal
- meddu ar brofiad o ddarparu goruchwyliaeth a chefnogaeth i waith cymdeithasol, a gwybodaeth am y dystiolaeth am yr hyn sy'n gwneud ymarfer o ansawdd uchel wrth weithio gyda phlant a'u teuluoedd



# PENNOD 5

## Cyfrifoldeb yr IRO ar gyfer monitro 'achos' plentyn neu berson ifanc a / neu waith yr IRO i gadw llygad cyffredinol ar sut mae'r plentyn neu berson ifanc yn dod yn ei flaen

### Y DDEDDF:

s100(1)(a) mae'n rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol fonitro'r perfformiad gan yr awdurdod lleol o ran ei swyddogaethau mewn perthynas ag achos y plentyn

s100(3) os bydd y swyddog adolygu annibynnol o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny, gellir cyfeirio achos y plentyn gan y swyddog hwnnw at un o swyddogion achosion teuluol Cymru

## SAFON

4. Mae'r IRO yn monitro achos y plentyn neu'r person ifanc yn barhaus ac yn sicrhau fod y cynllun gofal a chymorth yn parhau i fod er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc

**Dyma restr o ffyrdd o ddangos bod monitro yn digwydd:**

4.1 Tystiolaeth o fonitro rheolaidd rhwng adolygiadau, wedi'u cynnwys yn yr amserlen;

4.2 Cyswllt gyda'r plentyn/person ifanc rhwng adolygiadau/cyswllt wyneb yn wyneb gyda'r plentyn/person ifanc yng nghanol cyfnod rhwng adolygiadau;

4.3 Systemau ar gyfer olrhain cynlluniau gofal fel y gall yr IRO fynd ar drywydd cynnydd y plentyn/person ifanc a chofnodi gwybodaeth ar y system fel tystiolaeth o fonitro;

4.4 Cofnodi pob sgwrs/cyfathrebiad gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn;

4.5 Bod yn glir gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn ar y llinellau cyfathrebu (cytuno ar brotocol i naill ai a) wneud iawn am ddiffyg cyswllt aml (os ar safleoedd gwahanol) neu b) i sicrhau nad yw gweithio'n agos o ran lleoliad/gwybodaeth am ddigwyddiadau o ddydd i ddydd yn cymylu'r ffiniau);

4.6 Gyda phlant sy'n destun gorchmynion lleoli (gweler Pennod 8), sicrhau y cedwir at Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 a'r canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r rhain.

s100(1)(a) mae'n rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol fonitro'r perfformiad gan yr awdurdod lleol o ran ei swyddogaethau mewn perthynas ag achos y plentyn

42 (1) Rhaid i'r IRO wneud y canlynol

d) Sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r Rhan hwn ac yn arbennig

i) Bod y person sy'n gyfrifol am weithredu unrhyw benderfyniadau a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad yn cael ei nodi, a

ii) bod unrhyw fethiant i adolygu'r achos yn unol â'r Rhan hon neu i gymryd camau priodol i weithredu penderfyniadau a gymerwyd o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu dwyn i sylw'r swyddog ar lefel briodol o statws o fewn yr awdurdod sy'n gyfrifol

Paragraff 366 Cod Ymarfer: Swyddogaethau'r awdurdod lleol yw i:

- Fonitro perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas ag achos y plentyn

UNCRC NPS: Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddynt yr hawl i gael eu trin yn deg

Byddwn ni yn:
- Herio gwahaniaethu
- Darparu amrywiaeth o gyfleoedd a chefnogaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc

### Arfer Da

Mae llawer o awdurdodau lleol yn cynnal adolygiad canol cyfnod er mwyn monitro'r cynllun gofal yn ffurfiol.

Yn Sir Fynwy a Sir Benfro, ar ôl yr adolygiad canol cyfnod, rhoddir crynodeb ar ffeil pob plentyn o gynnydd ers yr adolygiad diwethaf.

Yn Sir Benfro mae'r IRO a'r gweithiwr cymdeithasol yn cyfarfod 10 diwrnod cyn yr adolygiad i baratoi ar gyfer y cyfarfod adolygu drwy ddatrys unrhyw broblemau posibl. Mae hyn wedi gwneud y cyfarfod adolygu yn brofiad mwy cadarnhaol i bawb dan sylw.

'Mae'r adolygiadau canol cyfnod hyn yn gweithio'n dda ac os oes unrhyw beth nad yw wedi cael ei roi ar waith ers yr adolygiad diwethaf, mae pobl yn ymateb yn dda pan fydd rhywun yn mynd ar eu hôl.'

IRO

## SAFON

5. Mae gan bob awdurdod lleol yn ei bolisïau eglurder o ran pwy sydd yn ymgymryd â pha rolau/swyddogaethau wrth oruchwylio/monitro cynllun gofal plentyn/person ifanc

**Mae monitro yn dechrau ar y diwrnod y daw'r adolygiad i ben:**

- Mae'r IRO yn anfon cofnod o'r penderfyniadau allweddol o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl yr adolygiad (arfer da)
- Mae penderfyniadau a wnaed mewn adolygiad yn amodol ar gytundeb gan y rheolwr perthnasol (y rheolwr tîm fel arfer)
- Mae'r rheolwr tîm yn hysbysu'r IRO o'r hyn y cytunwyd arno/nas cytunwyd arno o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y ddogfen penderfyniadau allweddol (arfer da)
- Mae'r IRO yn anfon cofnod llawn/cofnodion o'r adolygiad o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl yr adolygiad i weithiwr cymdeithasol/rheolwr tîm y plentyn/person ifanc (arfer da)
- Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn cael cofnodion neu lythyr/neges testun, yn esbonio canlyniad yr adolygiad (arfer da/safonau cyfranogiad cenedlaethol)
- Gweithiwr cymdeithasol y plentyn/person ifanc yn rhoi'r cofnod ar ffeil y plentyn (44)
- Gweithiwr cymdeithasol y plentyn/person ifanc yn diwygio'r cynllun gofal a chymorth o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cofnod llawn ac o fewn 25 diwrnod gwaith ar ôl yr adolygiad (arfer da)
- Os yw'r rheolwr tîm yn cytuno, bydd gweithredu'n dechrau (43(a)) a monitro'n dechrau
- Os nad yw'r rheolwr tîm yn cytuno, mae'r IRO yn ystyried p'un a yw'n 'arwyddocaol' a p'un a ddylid ei ddwyn i sylw'r uwch reolwyr (y broses datrys anghydfod) (42(1)(d)(ii))

Os bydd newid i'r cynllun yn ystod y broses monitro:

- Os yw'n newid arfaethedig, cyfrifoldeb gweithiwr cymdeithasol y plentyn/person ifanc yw iddo gael ei ystyried yn yr adolygiad, oni bai ei fod yn rhesymol anymarferol (38(2))
- Gweithiwr cymdeithasol/rheolwr tîm y plentyn/person ifanc i roi gwybod i'r IRO am unrhyw fethiant arwyddocaol i wneud trefniadau o'r fath neu unrhyw newid amgylchiadau arwyddocaol sy'n digwydd wedi'r adolygiad sy'n effeithio ar y trefniadau hynny (43(b))

**Mae'r amseru a nodir uchod ac yn y diagram cysylltiedig ar dudalen 28 yn cyflwyno her, yn enwedig i reolwr y tîm i ymateb i'r IRO o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y ddogfen penderfyniadau allweddol gan yr IRO. Dylai'r amserlen hon fod yn uchelgeisiol, er mwyn osgoi unrhyw achos o bethau'n llithro, yn enwedig os yw rheolwr y tîm am anghytuno gyda phenderfyniad a wnaed yn yr adolygiad ffurfiol ac na fydd yn ei gadarnhau. Os na ellir bodloni'r terfyn amser 5 diwrnod gwaith, yna dylid ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith ar y fan bellaf.**

s100(1)(a) mae'n rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol fonitro'r perfformiad gan yr awdurdod lleol o ran ei swyddogaethau mewn perthynas ag achos y plentyn

Rheoliadau (yn y drefn y maent yn ymddangos ar y dudalen flaenorol)

44 Rhaid i'r awdurdod cyfrifol sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r adolygiad yn cael ei baratoi, a bod y wybodaeth a geir yn ystod yr adolygu, manylion trafodion yn y cyfarfod adolygu, ac unrhyw benderfyniadau a wnaed yn ystod neu o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu cynnwys yng nghofnod achos y plentyn

43(a) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol wneud trefniadau i weithredu penderfyniadau a wnaed yn ystod, neu o ganlyniad 43(a), i'r adolygiad

42(1)(d)(ii) Rhaid i'r IRO sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r Rhan hon ac yn arbennig felly bod unrhyw fethiant i adolygu'r achos yn unol â'r Rhan hon neu i gymryd camau priodol i weithredu penderfyniadau a gymerwyd o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu dwyn i sylw'r swyddog ar lefel briodol o statws o fewn yr awdurdod sy'n gyfrifol

38(2) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol beidio â gwneud unrhyw newidiadau arwyddocaol i gynllun gofal y plentyn oni bai bod y newid arfaethedig wedi cael ei ystyried yn gyntaf mewn adolygiad o achos y plentyn, oni bai fod hyn yn rhesymol anymarferol

43(b) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi gwybod i'r IRO am unrhyw fethiant arwyddocaol i wneud trefniadau o'r fath neu unrhyw newid amgylchiadau arwyddocaol sy'n digwydd wedi'r adolygiad sy'n effeithio ar y trefniadau hynny

UNCRC NPC: Mae gennych chi'r hawl i wybod pa wahaniaethau rydych chi wedi eu gwneud a chael gwrandawiad i'ch syniadau

Byddwn ni yn:

- Sicrhau eich bod yn cael adborth mewn amser y cytunwyd arno bob amser
- Dweud wrthych sut y defnyddiwyd eich syniadau a pham
- Dweud wrthych beth sy'n digwydd nesaf

'Dylai'r IRO fod yn glir am ffiniau'r adolygiad a sicrhau fod pawb arall yn deall hefyd'

Person ifanc â phrofiad gofal

### Arfer Da

Yn Wrecsam, mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod cofnodion adolygiad yn cael eu hysgrifennu mewn ffordd fel y gall y plentyn ddeall eu taith bywyd yn y dyfodol.

Mae llawer o awdurdodau yn defnyddio negeseuon testun/cyfryngau cymdeithasol eraill (lle bo'n saff a diogel) i ddarparu cofnodion i'r plentyn/person ifanc.

Mae Abertawe yn y broses o ddatblygu llythyrau cadarnhad i blant a phobl ifanc.

## SAFON

6. Mae'r IRO yn sicrhau fod y broses fonitro yn atal unrhyw achos o adael i bethau lithro yng nghynllun gofal y plentyn

Mae'r safon hon yn cynnwys cyfrifoldeb mawr mewn perthynas â chynllun plentyn neu berson ifanc. Yn benodol dylai'r IRO roi sylw manwl i'r canlynol:

6.1 **Plentyn yn derbyn llety ar sail wirfoddol o dan s76 SSWb(W)A**. Beth yw'r cynllun gofal? Ai dychwelyd y plentyn i'r teulu biolegol yn y dyfodol agos neu ydy'r plentyn yn debygol o barhau i gael ei letya gyda chynllun i'w dynnu oddi wrth ei deulu yn barhaol? Ydy'r lleoliad s76 yn amddifadu'r plentyn o'i erthygl 6 (hawl i dreial teg) ac erthygl 8 (hawl i fywyd preifat a theuluol) drwy beidio â gwneud cais i'r llys am orchymyn gofal? Gallai hyn fod yn achos o dorri hawliau dynol y plentyn y mae'r IRO yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau lle mae s76 yn briodol a lle mae'n cael ei ddarparu fel gwasanaeth gwirioneddol i'r plentyn neu'r person ifanc a'u teulu. Yn yr amgylchiadau hyn dylai'r IRO ystyried capasiti'r rhieni biolegol i gydsynio i s76 a thystiolaeth ohonynt yn parhau i fod yn rieni gweithgar ac yn ymarfer eu cyfrifoldeb rhieni, yn ogystal â bod yn fodlon nad yw hawliau erthygl 6 a 8 yn cael eu torri. Dylai'r IRO hefyd fod ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu berson ifanc eu hunain, ac o'r ddyletswydd i gynorthwyo'r person ifanc i geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain os yn briodol.

6.2 **Plentyn sy'n destun gorchymyn lleoli o dan s21 ACA 2002**. Pan roddwyd y gorchymyn lleoli, pa ganllawiau roddodd y llys teulu o ran y cyfnod o amser y dylai'r awdurdod ei ddefnyddio i chwilio am ddarpar rieni mabwysiadol? Dylid gwneud cais i'r llys i ddirymu gorchymyn lleoli os nad yw mabwysiadu bellach yn rhan o'r cynllun gofal ar gyfer y plentyn. Dylai'r IRO hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw oedi gyda chais gan ddarpar rieni mabwysiadol ar gyfer y gorchymyn mabwysiadu. Ydy'r oedi o ganlyniad i anghydfod dros y cynllun cymorth mabwysiadu, neu a oes rhesymau eraill?

www.adoptcymru.com

6.3 **Lleoli gyda rhieni, o dan Reoliadau 16 – 21 CPPCR(W)R**. Am faint mae'r plentyn wedi cael ei leoli gartref, o dan delerau gorchymyn gofal? Beth yw'r cynllun hirdymor ar gyfer y plentyn? A ddylid gwneud cais i ollwng y gorchymyn gofal/amnewid am orchymyn goruchwylio? Ai dyma'r cynllun iawn i'r plentyn aros gartref, o dan PWP – a fydd lles y plentyn yn cael ei fodloni drwy barhau i gael ei leoli gartref o dan orchymyn gofal?

6.4 **Yr angen i ollwng gorchymyn gofal o dan s39 CA 1989**. Ydy'r plentyn/person ifanc yn symud tuag at gartref a rhieni biolegol? Dylid adolygu diben y gorchymyn gofal. Oes angen i'r awdurdod lleol barhau i ddal ei gyfrifoldeb rhiant?

s100(1)(a) mae'n rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol fonitro'r perfformiad gan yr awdurdod lleol o ran ei swyddogaethau mewn perthynas ag achos y plentyn

Paragraff 370 Cod Ymarfer: Dylai'r IRO gynnig camau diogelu i atal unrhyw achos o 'adael i bethau lithro' wrth gynllunio gofal y plentyn sy'n derbyn gofal a sicrhau bod ymdrechion yr awdurdod lleol wrth adolygu achosion plant yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pob plentyn

Paragraff 371 Cod Ymarfer: Mae cyfrifoldebau'r IRO yn cynnwys:

- Cynnig diogelwch i atal unrhyw achos o 'adael i bethau lithro' mewn gofal a chefnogi cynllunio a darparu gwasanaethau

Para 372 Cod Ymarfer: Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng adolygu fel proses o fonitro parhaus ac ailasesu, ac adolygiad ffurfiol o gynllun gofal a chymorth Rhan 6

UNCRC NPS: Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt

Byddwn ni yn:

- Gweithio gyda chi a dysgu sut y gallwn wneud pethau'n well
- Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau

## Arfer Da

Mae llawer o awdurdodau lleol bellach yn sicrhau bod unrhyw drafodaethau rhwng yr IRO a gweithiwr cymdeithasol y plentyn/person ifanc yn ffurfiol ac yn cael eu cofnodi'n gywir a'u rhoi ar ffeil y plentyn.

'Rwy'n teimlo bod y cyfarfodydd yn llawn o addewidion ond nid ydynt y cael eu rhoi ar waith ar gyfer y Plant, ac nid ydynt yn cael yr help maen nhw ei angen. mae'n ymddangos fod pethau yn cymryd amser hir iawn i gael eu rhoi ar waith.'

Aelod teulu biolegol

'Mae angen sicrhau bod rhywun yn cymryd rhan yn yr adolygiad y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn gallu bod yn agored ac yn onest gyda nhw am eu sefyllfa.'

Person ifanc â phrofiad gofal

## SAFON

7. Mae'n glir ym mholisïau plant sy'n derbyn gofal pob awdurdod lleol o ran pa fethiant arwyddocaol neu newidiadau i gynllun y dylid eu cyfeirio at yr IRO (a sut mae'r methiant/newid hwnnw'n cael eu cyfleu i'r IRO)

Dylai cynllun gofal s31 a rhan a chynllun gofal a chymorth Rhan 6 nodi pa elfennau yw'r pwysicaf mewn cynllun penodol.

Er nad yw'n briodol i'r IRO fynychu cyfarfodydd porth cyfreithiol neu gyfarfodydd cynllunio cyfreithiol, dylent gael gwybod pan fo cyfarfod o'r fath yn cael ei gynnal a derbyn cofnodion o'r cyfarfod. Gall fod yn ddefnyddiol i'r IRO fynychu cyfarfodydd cynllunio yn ddiweddarach, lle cynhelir y dadansoddiad lles ar yr opsiynau cynllun gofal sydd ar gael ar gyfer y plentyn.

Mewn perthynas â phlant sydd wedi'u lleoli yn y cartref gyda rhieni o dan orchymyn gofal, dylai'r cynllun gofal fod yn glir iawn o ran beth yw'r sbardunau ar gyfer tynnu'r plentyn i ffwrdd, pan fo angen o ystyried diogelwch a lles y plentyn.

Cyfrifoldeb gweithiwr cymdeithasol y plentyn/person ifanc yw diweddaru'r IRO am ddigwyddiadau arwyddocaol ym mywyd y plentyn a newidiadau, neu newidiadau posibl, i'r cynllun gofal.

Dylid cael llinellau ffurfiol, clir o gyfathrebu rhwng gweithiwr cymdeithasol y plentyn/person ifanc a'r IRO ar gyfer cyfathrebu newid sylweddol i'r cynllun gofal a chymorth, amgylchiadau teulu biolegol y plentyn/person ifanc a system ar gyfer cofnodi'r cyfathrebiad hwnnw.

Mae system o rybuddion lefel isel yn gynnar i dynnu sylw'r IRO at broblemau posibl yn helpu i sicrhau fod yr IRO yn ymwybodol o'r rhain. Er eu bod ar lefel isel, mae'n debyg y dylid dal i gofnodi'r cyfathrebiadau hyn yn gywir.

s100(1)(a) mae'n rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol fonitro'r perfformiad gan yr awdurdod lleol o ran ei swyddogaethau mewn perthynas ag achos y plentyn

43 Rhaid i'r awdurdod cyfrifol wneud y canlynol:

a) wneud trefniadau i weithredu penderfyniadau a wnaed yn ystod, neu o ganlyniad, i'r adolygiad, a

b) rhoi gwybod i'r IRO am unrhyw fethiant arwyddocaol i wneud trefniadau o'r fath neu unrhyw newid amgylchiadau arwyddocaol sy'n digwydd wedi'r adolygiad sy'n effeithio ar y trefniadau hynny

Paragraff 382 Cod Ymarfer: 'mae gofyn i staff yr awdurdod lleol hysbysu'r IRO am unrhyw newidiadau sylweddol i gynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn neu am unrhyw fethiant sylweddol i roi penderfyniadau sy'n codi o adolygiad ar waith. Byddai newid sylweddol yn cynnwys newidiadau i gynllun sefydlogrwydd y plentyn megis lleoliad yn chwalu neu symud heb ei gynllunio. Lle mae trefniadau sefydledig ar gyfer plentyn yn chwalu'n sydyn, dylai'r IRO drefnu adolygiad newydd â phawb sy'n ymwneud â'r achos i ystyried cynllun byrdymor newydd a'r opsiynau i'w hystyried ar gyfer amcanion y tymor hwy.'

UNCRC / NPS: Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt

Byddwn ni yn:
- Gweithio gyda chi a dysgu sut y gallwn wneud pethau'n well
- Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau

### Arfer Da

Cyfnewid gwybodaeth yn dda/yn glir/wedi'i gofnodi.

Mae'r IRO yn cael ei hysbysu am newid i'r cynllun sydd ar y system.

Gellir rhoi gwybod am newidiadau positif i fywyd y plentyn (ee llwyddiant mewn arholiadau/cyrsiau) i'r IRO hefyd. Yna gall yr IRO ymateb i'r plentyn/person ifanc.

'Mae ambell IRO yn gofyn i bobl ifanc am eu nodau a'u hamcanion ond nid yw eraill yn gofyn hyn – maen nhw'n canolbwyntio ar y 'problemau' yn unig.'

'Mae'n dda cael adolygiad pan fo newid lleoliad i wirio sut mae pethau'n mynd.'

Pobl ifanc sydd â phrofiad gofal

## SAFON

8. a) Mae gan yr awdurdod lleol broses datrys anghydfod sy'n rhoi manylion am sut y rhoddir sylw i bryderon arwyddocaol sy'n cael eu codi gan yr IRO ynghylch cynllun gofal plentyn/person ifanc

   b) Mae'r IRO yn sicrhau, os oes pryderon sylweddol mewn perthynas â chynllun gofal plentyn/person ifanc, eu bod yn cael eu dwyn i sylw'r uwch reolwr priodol mewn ffordd glir ac amserol

8.1 Dylai proses datrys anghydfod (DRP) yr awdurdod lleol fod yn glir ac yn hygyrch;

8.2 Dylai pob IRO wybod beth yw sail y protocol, lle i gael manylion amdano a bod yn hyderus yn ei ddefnydd fel ffordd o ganfod datrysiad/dod i gytundeb gyda'r awdurdod lleol;

8.3 Ni ddylai unrhyw gam o'r broses fod yn 'anffurfiol', o ran y dylai'r holl drafodaethau/cyfarfodydd yn y broses gael eu cofnodi'n briodol;

8.4 Dylai'r cam terfynol (yn ddelfrydol, ni ddylai fod mwy na thri) ar lefel pennaeth gwasanaeth;

8.5 Ni ddylai'r broses gyfan ei hun gymryd mwy na 20 diwrnod gwaith i'w chwblhau;

8.6 Dylai cyngor cyfreithiol ac amserol fod ar gael i'r IRO ar y trydydd cam (pennaeth gwasanaeth) (gweler Safon 9);

8.7 Os cred yr IRO fod y pryderon sylweddol yn gyfystyr â thorri hawliau dynol sylfaenol y plentyn neu berson ifanc, yna dylai ef neu hi fynd yn syth i lefel cam tri y DRP, pennaeth gwasanaeth;

8.8 Os cred yr IRO, ar ôl disbyddu'r DRP, fod diffyg sylweddol yng nghynllun gofal y plentyn neu berson ifanc sy'n gyfystyr â thorri eu hawliau dynol yna dylai ef/hi atgyfeirio i Cafcass Cymru, gan ddefnyddio protocol Cafcass Cymru a bod yn ymwybodol o'r trothwy ar gyfer atgyfeirio a nodir yn y protocol

8.9 Os yn bosibl, dylai pawb dan sylw ystyried y broses fel ffordd gadarnhaol o ddatrys anghytundeb neu ddiwygio cynllun gofal sydd wedi methu yn sylweddol neu lle mae pethau wedi llithro.

**Gweler y diagram ar dudalen 25**

Gweler y Protocol IRO rhwng Cafcass Cymru ac ADSS Cymru, 2018.

www.adsscymru.org.uk/media-resources-list/s20-guidance/

s100(1)(a) mae'n rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol fonitro'r perfformiad gan yr awdurdod lleol o ran ei swyddogaethau mewn perthynas ag achos y plentyn

42(1)(d) Rhaid i'r IRO sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r Rhan hwn ac yn arbennig

a) …
b) bod unrhyw fethiant i adolygu'r achos yn unol â'r Rhan hon neu i gymryd camau priodol i weithredu penderfyniadau a gymerwyd o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu dwyn i sylw'r swyddog ar lefel briodol o statws o fewn yr awdurdod sy'n gyfrifol

UNCRC / NPS: Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt

Byddwn ni yn:

- Gweithio gyda chi a dysgu sut y gallwn wneud pethau'n well
- Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau

'Mae angen i'r IRO ddangos eu hannibyniaeth trwy'r ffordd maen nhw'n rheoli'r broses adolygu.'

Person ifanc sydd â phrofiad gofal

'Nid oeddem fel teulu yn credu fod yr IRO yn annibynnol ond mae'n ymdrechu gael y gorau ar gyfer y plant.'

Grŵp o frodyr a chwiorydd â phrofiad gofal sy'n byw gyda nain a thaid

## SAFON

9. Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau fod gan yr IRO fynediad at gyngor cyfreithiol amserol sydd yn annibynnol ar yr awdurdod lleol, os tybir fod angen hynny gan yr IRO, ar drydydd cam y broses datrys anghydfodau

Mae angen i gyngor cyfreithiol a ddarparwyd o dan y safon hwn fod yn annibynnol ar adran gyfreithiol yr awdurdod lleol, gan fod eu cleientiaid yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'u rheolwyr. Mae'n bosibl y bydd achos o wrthdaro buddiannau ar gyfer cyfreithwyr yr awdurdod lleol yn yr awdurdod cartref wrth roi cyngor i'r gweithiwr cymdeithasol a'r IRO.

Ni ellir ceisio cyngor cyfreithiol gan adran gyfreithiol Llywodraeth Cymru CAFCASS Cymru gan mai CAFCASS Cymru yw eu cleient. Unwaith eto, felly, mae gwrthdaro buddiannau posibl.

Mae angen i'r IRO allu cael eu cyngor cyfreithiol eu hunain, ar drydydd cam y broses datrys anghydfod, lle maen nhw'n cynnwys pennaeth y gwasanaeth.

Yr awdurdod lleol sydd i benderfynu sut i sicrhau bod cyngor cyfreithiol ar gael i'r IRO. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi sefydlu trefniadau dwyochrog gydag un neu ddau o awdurdodau cyfagos. Mae awdurdodau lleol eraill yn gwneud trefniadau sy'n sicrhau fod cyfreithwyr mewn practis preifat (sydd â phrofiad mewn cyfraith gofal plant cyhoeddus) ar gael.

Hefyd, efallai y bydd yr IRO angen eu cyngor cyfreithiol eu hunain pan fydd yn mynd i'r llys teulu i'w dal yn atebol am eu gweithredoedd mewn achos penodol. Mae'n rhaid cofio bod gan yr IRO gyfrifoldeb personol yn eu rôl o ddwyn yr awdurdod lleol i gyfrif. Eto dylai cyngor cyfreithiol annibynnol fod ar gael.

**OS BYDD ATGYFEIRIAD I CAFCASS CYMRU YN CAEL EI YSTYRIED:**
Gweler y Protocol IRO rhwng Cafcass Cymru ac ADSS Cymru, 2018.

www.adsscymru.org.uk/media-resources-list/s20-guidance/

s100(1)(a) mae'n rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol fonitro'r perfformiad gan yr awdurdod lleol o ran ei swyddogaethau mewn perthynas ag achos y plentyn

s100(3) os bydd y swyddog adolygu annibynnol o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny, gellir cyfeirio achos y plentyn gan y swyddog hwnnw at un o swyddogion achosion teuluol Cymru

Rheoliad 53(3) Yn yr amgylchiadau canlynol mae'n rhaid i'r IRO ystyried a fyddai'n briodol cyfeirio achos y plentyn at swyddog achosion teuluol yng Nghymru

a) Ym marn yr IRO, mae'r awdurdod cyfrifol wedi methu mewn unrhyw gyfrif yn arwyddocaol
   i) I baratoi cynllun gofal y plentyn yn unol â'r Rheoliadau hyn,
   ii) I adolygu achos y plentyn yn unol â'r Rheoliadau hyn, neu i roi unrhyw benderfyniad a gymerwyd o ganlyniad i adolygiad yn ar waith yn effeithiol, neu
   iii) Yn torri ei ddyletswyddau i'r plentyn mewn unrhyw ystyr berthnasol fel arall, ac
b) Ar ôl tynnu'r methiant i sylw personau ar lefel briodol o ran statws yn yr awdurdod cyfrifol, nid yw wedi cael sylw er boddhad yr IRO mewn cyfnod rhesymol o amser

UNCRC / NPS: Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt


Byddwn ni yn:
- Gweithio gyda chi a dysgu sut y gallwn wneud pethau'n well
- Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau

### Arfer Da

Yn Abertawe mae'r adran gyfreithiol cyfatebol (NPT), yn cynnig hyfforddiant i bob IRO, gan gynnwys pynciau megis cyfraith achosion newydd a'r defnydd o drefniadau s76.

'Byddai statws yr IRO yn well o lawer os byddai eu gallu i gael mynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth yn eglur...'

Keith Towler, 2016



Adolygiad a Chyfathrebu Dilynol
IRO yn fodlon ar y cynllun fel y cytunwyd arno gan TM
NAC YDY
YDY
Dechrau monitro
Achos o adael pethau i lithro?
(S76) / (PWP)
(PO) / (CO)
OES
NAC OES
Ystyried y broses datrys anghydfod
Parhau i fonitro
Cam Cychwynnol SW/TM
20
diwrnod
gwaith
Ail gam SM
Trydydd Cam HoS
Mynediad amserol i gyngor cyfreithiol annibynnol yma
Datrysiad?
NA
OES
Cyfeirio at Cafcass Cymru (rheolwr gweithrediadau)
Parhau i fonitro

# PENNOD 6

## Cyfrifoldeb yr IRO ar gyfer adolygu achos y plentyn neu berson ifanc' a / neu 'gwaith yr IRO i adolygu, ar adegau penodol, sut mae'r plentyn neu berson ifanc yn dod yn ei flaen

**Mae'r adolygiad yn broses, nid yn gyfarfod – sut y gellir rhoi'r cysyniad hwn ar waith**

**Y Ddeddf:**

S100(1)(b) Cymryd rhan, yn unol â'r rheoliadau, mewn unrhyw adolygiad ar achos y plentyn

**SAFON**

10. Mae'r awdurdod lleol cyfrifol yn sicrhau fod cynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn/person ifanc yn cael ei adolygu yn unol â rheoliadau a'r cod ymarfer

10.1 Dylai yr IRO bob amser fod yn ymwybodol o'u rôl wrth barhau â'r 'sgwrs beth sydd o bwys' gyda'r plentyn neu berson ifanc, a ddechreuwyd gyda'u gweithiwr cymdeithasol, fel y nodir yn yr SSWB(W)A;

10.2 Dylid cytuno ar fformat y cyfarfod adolygu gyda'r plentyn neu'r person ifanc ac ystyried eu safbwyntiau, dymuniadau a theimladau;

10.3 Wrth gytuno ar fformat ar gyfer y cyfarfod adolygu, mae angen parchu anghenion preifatrwydd y plentyn neu'r person ifanc;

10.4 Os oes cyfarfod, fel rhan o'r broses adolygu, ac nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn dymuno mynychu, dylai'r IRO sicrhau ymgynghori a chynrychiolaeth priodol o'u safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau yn y cyfarfod;

10.5 Dylai'r IRO fod yn glir o ran pwy sydd yn rhoi pa gam gweithredu ar waith ar ddiwedd y broses adolygu a'r amserlen ar gyfer hynny (rheoliad 42(1)(d)(i));

10.6 Mae'n arfer da i'r cofnod penderfyniadau allweddol gael ei rannu gan yr IRO gyda'r rheolwr tîm o fewn 5 diwrnod gwaith i'r adolygiad a chofnod llawn y cyfarfod (a baratowyd yn unol â rheoliad 44), i gael ei gwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith o'r adolygiad. Dylid diweddaru'r cynllun gofal a chymorth gan weithiwr cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cofnod llawn o'r cyfarfod adolygu. Felly, bydd y cynllun gofal yn cael ei ddiwygio o fewn 25 diwrnod gwaith ar ôl yr adolygiad a ffeil y plentyn neu berson ifanc yn cael ei ddiweddaru. Gweler y diagram ar dudalen 38;

10.7 Mae cofnod llawn o'r cyfarfod yn cael ei rannu gyda'r holl gyfranogwyr;

10.8 Mae cofnod hygyrch yn cael ei ysgrifennu a'i rannu gyda'r plentyn/person ifanc a'u teulu biolegol (rheoliad 44);

10.9 Os na chytunir ar/cadarnheir penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod adolygu, mae'n rhaid i'r rheolwr perthnasol (rheolwr tîm fel arfer) roi gwybod i'r IRO o fewn 5 diwrnod gwaith (Rheoliad 43(a)) a gweler Safon 5

10.10 Ni ddylid gwneud unrhyw newid sylweddol i gynllun gofal heb iddo gael ei ystyried mewn adolygiad yn gyntaf, oni bai ei bod hi'n rhesymol anymarferol (rheoliad 38(2)).

Noder fod holl amserlenni yn arfer da, nid yn drefniadau rheoleiddio.
Gweler y Protocol IRO rhwng Cafcass Cymru ac ADSS Cymru, 2018.

www.adsscymru.org.uk/media-resources-list/s20-guidance/

S100(1)(b) Cymryd rhan, yn unol â'r rheoliadau, mewn unrhyw adolygiad ar achos y plentyn

### Crynodeb o'r rheoliadau:

38(1) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol adolygu achos y plentyn yn unol â'r Rhan hwn.

42(1)(a) Rhaid i'r IRO, cyn belled â'i bod yn ymarferol rhesymol, fynychu unrhyw gyfarfod fel rhan o'r adolygiad

### Amserlenni

39(1) adolygiad cyntaf o fewn 20 diwrnod i'r plentyn ddechrau derbyn gofal

39(2) ail adolygiad dim mwy na thri mis wedi'r un cyntaf

39(2) adolygiadau dilynol dim mwy na chwe mis

42(1)(d) Rhaid i'r IRO sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r Rhan hwn ac yn arbennig –

(i) Bod y personau sy'n gyfrifol am weithredu unrhyw benderfyniad a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad yn cael ei nodi

44 Rhaid i'r awdurdod cyfrifol sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r adolygiad yn cael ei baratoi, a bod y wybodaeth a geir yn ystod yr adolygu, manylion trafodion yn y cyfarfod adolygu, ac unrhyw benderfyniadau a wnaed yn ystod neu o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu cynnwys yng nghofnod achos y plentyn

43 rhaid i'r awdurdod cyfrifol wneud y canlynol

a) Gwneud trefniadau i weithredu penderfyniadau a wnaed yn ystod, neu o ganlyniad, i'r adolygiad, a

b) Rhoi gwybod i'r IRO am unrhyw fethiant arwyddocaol i wneud trefniadau o'r fath neu unrhyw newid amgylchiadau arwyddocaol sy'n digwydd wedi'r adolygiad sy'n effeithio ar y trefniadau hynny

### Ar ba adegau eraill mae angen adolygiad?

38(2) ni ddylai fod unrhyw newid sylweddol mewn cynlluniau gofal oni bai fod y newid arfaethedig wedi'i ystyried mewn adolygiad, oni bai fod hyn yn rhesymol anymarferol;

39(3)(c) os yw'r person ifanc yn gwneud cais am adolygiad; fodd bynnag, nid oes rhaid cynnal adolygiad os yw'r IRO yn ystyried na ellir cyfiawnhau adolygiad cynnar (39(4) Gweler y diagram ar dudalen 25

UNCRC / NPS: Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnânt

Byddwn ni yn:
- Gweithio gyda chi a dysgu sut y gallwn wneud pethau'n well
- Sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau

## Arfer Da

Gwybodaeth ar ôl yr adolygiad/sicrhau fod gwybodaeth yn hygyrch i'r person ifanc (yn Abertawe mae IRO yn anfon llythyr/cerdyn/tystysgrif ar ôl yr adolygiad).

Dathlu'r person ifanc. Yng Nghaerdydd mae'r IRO bob amser yn gorffen adolygiad gyda dathliad o'r hyn sydd wedi mynd yn dda a'r hyn sydd wedi'i gyflawni, gan gofnodi'r rhain fel y gall y plentyn neu berson ifanc fynd â nhw o'r cyfarfod gyda nhw.

Cofnodion/cofnod i ddathlu cyflawniadau – 'da iawn – dyna gamp!'

'Dylai pob adolygiad ddathlu beth mae person ifanc yn ei wneud yn dda (ac nid cyflawniad addysgol yn unig).'

Person ifanc â phrofiad gofal

**DIWEDD YR ADOLYGIAD**

Mae'r IRO yn anfon cofnod o benderfyniadau allweddol i'r SW/TM
(o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl diwedd yr adolygiad)

Ydy'r TM yn cytuno gyda phenderfyniadau?

**NAC YDY**

TM i roi gwybod i'r IRO am yr hyn nad yw'n cytuno â nhw
(o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y cofnod o benderfyniadau allweddol)

Yr IRO yn ystyried p'un a yw'r Cynllun Gofal yn 'arwyddocaol'

**YDY**

Ystyried y broses datrys anghydfod

**NAC YDY**

Dechrau monitro

**YDY**

TM i roi gwybod i'r IRO am yr hyn mae'n cytuno â nhw
(o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y cofnod o benderfyniadau allweddol)

Mae'r IRO yn anfon cofnod llawn o'r adolygiad i SW/TM
(o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl yr adolygiad)

Cynllun Gofal yn cael ei ddiwygio
(o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cofnod llawn, o fewn 25 diwrnod ar ôl adolygiad)

Dechrau monitro
(monitro canol tymor ar ôl 12 wythnos)

**SAFON**

## 11. Mae'r IRO yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r plentyn neu'r person ifanc cyn yr adolygiad

11.1 Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall pwrpas adolygiad o gynllun gofal a chymorth Rhan 6 (gwneir y gwaith hwn ar y cyd â gweithiwr cymdeithasol y plentyn neu berson ifanc);

11.2 Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn ymwybodol o gynnwys eu cynllun gofal a chymorth ac yn deall beth mae'n ei olygu iddynt. Gwneir y gwaith hwn ar y cyd â gweithiwr cymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc a bydd yn rhan o'r 'sgwrs beth sydd o bwys';

11.3 Mae'r IRO yn gwirio gyda'r plentyn neu'r person ifanc ynghylch eu iaith/dull cyfathrebu o ddewis;

11.4 Mae'r IRO yn trafod gyda'r plentyn neu'r person ifanc pwy fydd yn bresennol yn y cyfarfod adolygu, os oes un yn cael ei gynnal;

11.5 Mae'r IRO yn trafod opsiynau lleoliad gyda'r plentyn neu'r person ifanc os bydd cyfarfod adolygu yn cael ei gynnal;

11.6 Mae'r IRO yn trafod sut yr hoffai'r plentyn neu'r person ifanc gyfrannu at yr adolygiad;

11.7 Mae'r IRO yn trafod lle yr hoffai'r plentyn neu'r person ifanc eistedd os bydd cyfarfod adolygu;

11.8 Mae'r IRO yn glir gyda'r plentyn neu'r person ifanc y bydd yr hyn sydd o bwys yn cael ei drafod a pha benderfyniadau allai gael dylanwadu ganddynt;

11.9 Mae'r IRO yn rhoi ystyriaeth i dechnoleg a p'un a allai hyn fod yn ddefnyddiol o'i ddefnyddio ar gyfer yr adolygiad o'r cynllun gofal a chymorth.

### Arfer Da

Yn NPT mae dyddiau ymgynghori wedi cael eu cynnal gyda phlant a phobl ifanc o oedrannau gwahanol er mwyn diweddaru eu dogfennau ymgynghori, sydd ar ffurf llyfryn.

Os nad yw'r plentyn yn mynychu cyfarfod adolygu yn mae'r gofalydd maeth yn dod â'r llyfryn ymgynghori.

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol Sir Gaerfyrddin yn cyfarfod â'r plentyn neu berson ifanc i gwblhau'r ddogfen.

S100(1)(b) Cymryd rhan, yn unol â'r rheoliadau, mewn unrhyw adolygiad ar achos y plentyn

42(1)(b) rhaid i'r IRO siarad gyda'r plentyn/person ifanc yn breifat am y materion sydd i'w hystyried yn yr adolygiad oni bai bod y plentyn/person ifanc, o ddeall digon i wneud hynny, yn gwrthod neu fod yr IRO yn ystyried ei fod yn amhriodol o gofio oedran a dealltwriaeth y plentyn/person ifanc

Paragraff 379 Cod Ymarfer: Mae'n ofynnol i'r IRO siarad gyda'r plentyn yn breifat cyn yr adolygiad, oni bai bod y plentyn yn gwrthod gwneud hynny neu os yw'r IRO yn ystyried ei bod yn amhriodol gwneud hynny oherwydd oedran neu ddealltwriaeth y plentyn Mae'n bwysig i'r IRO weithio gyda'r plentyn i gael eu barn a nodi unrhyw faterion a chanfod sut yr hoffai ef/hi wneud y cyfraniad mwyaf ystyrlon i'r adolygiad

UNCRC / NPS: Mae gennych yr hawl i ddweud eich dweud. Mae eich barn yn bwysig a bydd yn cael ei barchu

Byddwn ni yn:

- Gwrando ar eich barn, profiadau a syniadau ac yn eich cymryd o ddifrif
- Gweithio gyda chi ar y pethau rydych chi'n dweud sydd yn bwysig
- Gwerthfawrogi'r hyn sydd gennych i'w gynnig

'Nid ydym erioed wedi cyfarfod yr IRO cyn y cyfarfodydd ac roeddem yn bryderus iawn am y cyfarfod. Efallai y gallai'r IRO gwrdd â ni ymlaen llaw ac egluro am y cyfarfod a phwy fyddai yno.'

Grŵp o frodyr a chwiorydd sydd â phrofiad gofal

'Mae'n dda adnabod y person cyn i chi gychwyn yr adolygiad fel eich bod yn eu hadnabod, nid yn gwybod beth sydd ar eich ffeil yn unig. Dylai fod yn berthynas broffesiynol nid yn gyfeillgarwch.'

Person ifanc sydd â phrofiad gofal

## SAFON

12. Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn neu berson ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn yr adolygiad

12.1 Mae'r IRO yn ymwybodol o'r safonau cyfranogiad ac mae ei (g)waith gyda'r plentyn yn adlewyrchu'r dulliau a argymhellir ynddynt;

12.2 Mae'r IRO yn sicrhau fod y plentyn neu person ifanc yn cael y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad drwy gwblhau dogfen ymgynghori briodol cyn y broses adolygu a rhoddir ystyriaeth i pwy yw'r person mwyaf priodol i gynorthwyo'r person ifanc gyda hynny;

12.3 Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn neu berson ifanc yn ymwybodol o'u rôl yn y broses adolygu;

12.4 Mae pawb yn y cyfarfod yn cael copi o'r agenda/ rhestr o bethau i siarad amdanynt;

12.5 Mae'r IRO yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ofalus i rannu unrhyw wybodaeth ychwanegol mewn cyfarfod adolygu os bydd un cyn cael ei gynnal;

12.6 Mae'r IRO yn cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i gael llais a'i fynegi mewn ffordd maen nhw'n teimlo'n gyfforddus ag ef;

12.7 Mae'r IRO yn sicrhau bod barn y plentyn neu berson ifanc y cael ei glywed yn y broses adolygu;

12.8 Mae'r IRO yn ymwybodol o'r cydbwysedd rhwng cyfranogiad y plentyn neu'r person ifanc a'r broses adolygu ffurfiol.

S100(1)(b) Cymryd rhan, yn unol â'r rheoliadau, mewn unrhyw adolygiad ar achos y plentyn

42(1)(b) Rhaid i'r IRO wneud y canlynol siarad gyda'r plentyn yn breifat am y materion sydd i'w hystyried yn yr adolygiad oni bai bod y plentyn, o ddeall digon i wneud hynny, yn gwrthod neu fod yr IRO yn ystyried ei fod yn amhriodol o gofio oedran a dealltwriaeth y plentyn

P371 Cod Ymarfer: Mae cyfrifoldebau'r IRO yn cynnwys:

- Sicrhau y cymerwyd pob cam rhesymol i ganfod, a rhoi ystyriaeth a phwys priodol i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau cyfredol y plentyn

UNCRC / NPS: Mae gennych yr hawl i ddweud eich dweud. Mae eich barn yn bwysig a bydd yn cael ei barchu

Byddwn ni yn:
- Gwrando ar eich barn, profiadau a syniadau ac yn eich cymryd o ddifrif
- Gweithio gyda chi ar y pethau rydych chi'n dweud sydd yn bwysig
- Gwerthfawrogi'r hyn sydd gennych i'w gynnig

### Arfer Da
SYNIADAU GAN BOBL IFANC

Y person ifanc yn cyd-gadeirio gyda'r IRO.

Cael eitem safonol ar yr agenda i'r person ifanc gael dweud ei ddweud – gellir gwneud hyn drwy ei ysgrifennu, ei ddweud, ei recordio ymlaen llaw a'i chwarae yn y cyfarfod.

Yr opsiwn o ddefnyddio skype i fod mewn cyfarfod (naill ai'r person ifanc neu gyfranogwyr adolygu eraill).

Chwarae DVD o safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc.

'Mae bod mewn gofal dal yn stigma, mae gan bobl ifanc yr hawl i breifatrwydd ac mae cael eu tynnu o ddosbarth i fynd i gyfarfod yn gadael i bawb wybod.'

Person ifanc sydd â phrofiad gofal

'Rydym yn deall bod gan yr adolygiad gyfrifoldeb i sicrhau bod y person ifanc yn iawn ond mae llinell denau ynglŷn â beth sydd angen ei rannu a'i wneud yn gyhoeddus i hynny ddigwydd.'

Person ifanc sydd â phrofiad gofal

**SAFON**

13. Mae'r IRO yn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr a chyfranwyr i'r broses adolygu yn ddigon gwybodus ac wedi cael eu paratoi

13.1 Dylai'r IRO sicrhau, ar y cyd â gweithiwr cymdeithasol y plentyn, fod rhieni biolegol neu eraill â chyfrifoldeb rhieni yn deall ac yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn y broses adolygu;

13.2 Lle mae cyfarfod adolygu yn cael ei gynnal dylai unrhyw wybodaeth ysgrifenedig gael ei rhannu ymlaen llawn a dylid rhoi cymorth i sicrhau fod y deellir y cynnwys;

13.3 Rhaid rhannu unrhyw wybodaeth newydd cyn cyfarfod adolygu;

13.4 Lle bo'n briodol, dylid rhoi gwybod i rieni biolegol neu eraill sydd â chyfrifoldeb rhieni am wasanaethau eiriolaeth;

13.5 Dylid bob amser cael agenda/rhestr o bethau i siarad amdanynt a dylai pob cyfranogwr gael un;

13.6 Dylai'r IRO gyflwyno pobl bob amser, gan egluro pwy ydyn nhw a pham eu bod yn yr adolygiad ac esbonio'r agenda;

13.7 Dylai'r cyfarfod adolygu sicrhau fod barn gofalwyr maeth (gan gynnwys gofalwyr maeth sy'n berthnasau) a gweithwyr preswyl yn cael eu gwyntyllu'n llawn a'u hystyried;

13.8 Lle mae cyfarfod adolygu yn cael ei gynnal dylai'r IRO sicrhau nad oes unrhyw jargon yn cael ei ddefnyddio;

13.9 Os yw adolygiad yn cymeradwyo cynllun gofal ar gyfer mabwysiadu, dylai'r rhieni biolegol wybod hyn cyn y cyfarfod adolygu. Dylai'r IRO esbonio'r ffaith bod yr adolygiad wedi cymeradwyo'r cynllun yn glir; yna mae barn yr IRO yn mynd at benderfynwr yr asiantaeth berthnasol;

13.10 Dylai'r IRO sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn deall bod y penderfyniadau a wneir mewn adolygiad yn amodol ar gytundeb/cadarnhad gan reolwr y tîm gwaith cymdeithasol neu reolwr arall. O ganlyniad, gall penderfyniadau newid rhwng adolygiadau.

**ADOLYGIADAU MABWYSIADU**

13.11 Pan fo adolygiad yn cael ei gynnal o dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, pan fo plentyn wedi'i leoli gyda darpar rieni mabwysiadol, dylai'r IRO sicrhau fod yr holl gyfranogwyr yn deall fod y darpar rieni mabwysiadol wedi ennill rhywfaint o gyfrifoldeb rhieni, ond bydd y plentyn yn parhau i fod yn blentyn sy'n derbyn gofal nes y bydd gorchymyn mabwysiadu yn cael ei wneud.

13.12 Dylai adolygiad mabwysiadu roi cyfle i graffu ar leoliad a'i herio'n briodol, yn unol â rheoliadau s37(7) AA(W)R 2005.

13.13 Dylai adolygiad mabwysiadu ystyried cronoleg digwyddiadau arwyddocaol ar gyfer y plentyn, ers cael ei leoli, gan gynnwys unrhyw niwed y gallai plentyn fod wedi dioddef, sut bynnag yr achoswyd y niwed, ac anghenion cymorth parhaus y plentyn a'r darpar rieni mabwysiadol.

S100(1)(b) Cymryd rhan, yn unol â'r rheoliadau, mewn unrhyw adolygiad ar achos y plentyn

40(1)(2)(b)(c)

42(1)(c) cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r IRO sicrhau fod barn, dymuniadau a theimladau rhieni'r plentyn/person ifanc, neu unrhyw un nad yw'n riant i'r plentyn/person ifanc ond sydd â chyfrifoldeb rhieni ar gyfer y plentyn/person ifanc, wedi'u nodi a'u hystyried

P371 Cod Ymarfer: Dylai'r IRO sicrhau (hefyd) fod barn rhieni, neu'r rhai â chyfrifoldeb rhieni, hefyd yn cael eu hystyried, lle bo'n bosibl

### Arfer Da

Mae gan NPT ddogfennau ymgynghori ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Defnyddio skype (os yn bosibl)/defnyddio technolegau eraill os na all yr IRO gyfarfod â'r teulu biolegol ymlaen llaw.

'Nid wyf yn cael dweud fy marn neu safbwyntiau cyn adolygiadau dim o fy mhlant, rwyf yn cael darllen adroddiad y gweithiwr cymdeithasol 10 munud cyn i'r cyfarfod ddechrau.'

'Nid yw hyn yn rhoi digon o amser i mi ddarllen yr adroddiad a rhoi sylwadau arno.'

Mam fiolegol

'Mae gorfod ateb cwestiynau mewn cyfarfod gyda llawer o bobl yno yn anodd.'

'Mae angen i'r 'taflenni' (ffurflenni ymgynghori) esblygu gyda'r plentyn neu'r lleoliad. Mae angen sicrhau bod cwestiynau perthnasol, gwahanol arnynt, oherwydd ar hyn bryd mae'r cwestiynau yr un fath bob amser.'

Person ifanc sydd â phrofiad gofal



**SAFON**

14. Bydd yr awdurdod cyfrifol yn cytuno/cadarnhau'r penderfyniadau a wnaed yn yr adolygiad o fewn amserlen resymol. Os na chytunir ar/cadarnheir penderfyniadau gan reolwyr perthnasol, yna bydd yr IRO yn cael ei hysbysu am y penderfyniad hwnnw

Amserlen arfer da (fel y nodir o dan Safon 5)

14.1 Mae'r Awdurdod Lleol a'r IRO yn glynu wrth y broses a nodir yn y diagram ar dudalen 28

14.2 Mae'r IRO yn anfon cofnod o'r penderfyniadau allweddol a wnaed yn y cyfarfod adolygu i'r rheolwr tîm o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod adolygu/diwedd y broses adolygu

14.3 Mae'r rheolwr tîm (neu uwch reolwr arall) yn ystyried y penderfyniadau allweddol a wnaed ym mhob adolygiad ac yn hysbysu'r IRO a'r rhai a fynychodd p'un a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r penderfyniadau a wnaed yn y broses adolygu (o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn y cofnod o benderfyniadau allweddol);

14.4 Os na chytunir ar/cadarnheir y penderfyniadau a wnaed yn yr adolygiad gan y rheolwr tîm a bod yr IRO yn ystyried fod methiant arwyddocaol o ganlyniad i hynny mewn perthynas â chynllun gofal y plentyn neu berson ifanc, mae'r IRO yn dechrau ar y broses datrys anghydfodau lleol (gweler y diagram ar dudalen 25)

**Nodyn:** Mae'r amseru a nodir uchod ac yn y diagram cysylltiedig ar dudalen 39 yn cyflwyno her, yn enwedig i reolwr y tîm i ymateb i'r IRO o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y ddogfen penderfyniadau allweddol gan yr IRO. Dylai'r amserlen hon fod yn uchelgeisiol, er mwyn osgoi unrhyw achos o bethau'n llithro, yn enwedig os yw rheolwr y tîm am anghytuno gyda phenderfyniad a wnaed yn yr adolygiad ffurfiol ac na fydd yn ei gadarnhau. Os na ellir bodloni'r terfyn amser 5 diwrnod gwaith, yna dylid ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith ar y fan bellaf.

S100(1)(b) Cymryd rhan, yn unol â'r rheoliadau, mewn unrhyw adolygiad ar achos y plentyn

43(b) rhaid i'r awdurdod cyfrifol wneud trefniadau i weithredu penderfyniadau a wnaed yn ystod, neu o ganlyniad 43(a), i'r adolygiad

44 rhaid i'r awdurdod cyfrifol sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r adolygiad yn cael ei baratoi, a bod y wybodaeth a geir yn ystod yr adolygu, manylion trafodion yn y cyfarfod adolygu, ac unrhyw benderfyniadau a wnaed yn ystod neu o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu cofnodi yng nghofnod achos y plentyn/person ifanc

Paragraff 377 Cod Ymarfer: Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r adolygiad yn cael ei baratoi (rheoliad 44). Dylai'r cofnod adolygu gynnwys cofnod cywir a chynhwysfawr o'r cyfarfod, gan gynnwys y penderfyniadau a wnaed ynghylch y cynllun gofal a barn pawb wnaeth fynychu ac a ymgynghorwyd â nhw yn ystod y cyfarfod.

UNCRC / NPS: Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddynt yr hawl i gael eu trin yn deg

Byddwn ni yn:

- Herio gwahaniaethu
- Darparu amrywiaeth o gyfleoedd a chefnogaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc

'Mae angen i ni gael cofnodion yn gynt'.

Person ifanc sydd â phrofiad gofal

# PENNOD 7

## Sut i sicrhau fod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn / person ifanc yn cael eu ceisio, eu clywed a'u gwireddu

### Y Ddeddf:

s100(1)(c) sicrhau fod dymuniadau a theimladau a gafwyd gan y plentyn yn cael ystyriaeth briodol gan yr awdurdod lleol

**SAFON**

15. Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn deall eu hawl i ofyn am adolygiad o'u cynllun gofal

15.1 Mae angen rhoi gwybodaeth ar yr IRO yn y 'Pecyn plant sy'n derbyn gofal (LAC) pan fo'r plentyn/person ifanc yn dechrau derbyn gofal;

15.2 Yn yr adolygiad cyntaf dylai'r IRO sicrhau fod y plentyn/person ifanc yn gwybod sut i gysylltu â nhw (naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r tîm);

15.3 Mae angen i'r IRO sicrhau (yn amodol ar oedran a dealltwriaeth) fod y plentyn/person ifanc yn deall y gallant gysylltu gyda'r IRO a gofyn i adolygiad gael ei gynnal cyn yr adolygiad arfaethedig nesaf. Dylai'r IRO, mewn trafodaethau gyda'r person ifanc, roi enghreifftiau o pryd y byddai'n iawn i'r person ifanc ofyn am adolygiad.

s100(1)(c) sicrhau fod dymuniadau a theimladau a gafwyd gan y plentyn yn cael ystyriaeth briodol gan yr awdurdod lleol

39(3)(c) gall y plentyn neu berson ifanc ofyn am adolygiad,

39(4) nid yw'n ofynnol i'r awdurdod cyfrifol gynnal adolygiad yn unol â pharagraff (3)(C) os yw'r IRO yn ystyried na ellir cyfiawnhau adolygiad cyn yr amser a nodwyd yn (1) neu (2)

Paragraff 377 Cod Ymarfer: Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r adolygiad yn cael ei baratoi (rheoliad 44). Dylai'r cofnod adolygu gynnwys cofnod cywir a chynhwysfawr o'r cyfarfod, gan gynnwys y penderfyniadau a wnaed ynghylch y cynllun gofal a barn pawb wnaeth fynychu ac a ymgynghorwyd â nhw yn ystod y cyfarfod.

UNCRC erthygl 12 / NPC: Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.

Byddwn ni yn:
- Byddwn yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis p'un a ydych chi am gymryd rhan

'Nid oedd yr un ohonom yn gwybod bod gennym yr hawl i ofyn am adolygiad o'n cynllun gofal.'

Person ifanc sydd â phrofiad gofal

**SAFON**

16. a) Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn deall rôl pawb sy'n cymryd rhan yn y broses adolygu. Mae'r plentyn/person ifanc yn deall eu hawl i gael cynnig gweithredol i eiriolaeth ac y darperir eiriolaeth os oes angen

b) Mae'r IRO yn sicrhau bod unrhyw blentyn/person ifanc â dealltwriaeth ddigonol yn ymwybodol o'u hawl i wneud cwyn

c) Mae'r IRO yn sicrhau bod unrhyw blentyn/person ifanc â dealltwriaeth ddigonol yn ymwybodol o'u hawl i wneud cais, gydag absenoldeb, o dan Ddeddf Plant 1989

ch) Mae'r IRO yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn ystyried, mewn amgylchiadau priodol, penodi ymwelydd annibynnol, yn unol â'r Safonau Cenedlaethol Ymwelwyr Annibynnol ar gyfer Cymru

Y CYNNIG GWEITHREDOL O EIRIOLAETH
(gweler Rhan 10 Cod Ymarfer)

Dyletswydd Awdurdod Lleol (i berson ifanc sy'n derbyn gofal):

- Rhoi gwybod i'r plentyn neu berson ifanc am argaeledd gwasanaethau eiriolaeth a chynnig cyfarfod gyda'r gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol lleol.
- Os hoffai'r plentyn neu berson ifanc gwrdd ag eiriolwr, dylai'r gweithiwr cymdeithasol wneud atgyfeiriad i wasanaeth eiriolaeth, a gofyn am gynnal cyfarfod cynnig gweithredol gyda'r plentyn neu berson ifanc. Rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc gydsynio i'r atgyfeiriad gael ei wneud.
- Cofnodi'r cynnig o eiriolaeth a phenderfyniad y plentyn neu'r person ifanc ar system rheoli achos yr awdurdod lleol.

'Cafodd y plant (oedd ddigon hen i gael llais yn y broses) gynnig eiriolwr a wnaeth eu gweld unwaith ond nid yw wedi'u gweld ers hynny. Nid yw hyn yn rhoi llais iddynt yn y broses.'

Rhiant biolegol

'O bosibl mae'n faes cadarnhaol iawn er mwyn symud pethau ymlaen. Dylid cefnogi pob person ifanc i sicrhau y gallant ddefnyddio'r cyfle hwn.'

Person ifanc â phrofiad gofal

s100(1)(c) sicrhau fod dymuniadau a theimladau a gafwyd gan y plentyn yn cael ystyriaeth briodol gan yr awdurdod lleol

a) Cynnig gweithredol o eiriolaeth
Y Ddeddf: s178
Rhan 6 Cod Ymarfer: paragraffau 8-9, 31-33

b) Cwynion
Y Ddeddf: ss174, 175, 178
Rheoliad 53(1)(b) CPPCR(W)R
Cod Ymarfer: paragraffau 388 – 391

c) Ceisiadau o dan y Ddeddf Plant
ss 8 & 10 Deddf Plant 1989
Rheoliad 53(1)(a)(2) CPPCR(W)R
Cod Ymarfer: paragraffau 388-391

d) Ymwelwyr annibynnol
Y Ddeddf: s98(1)(2)
Rheoliad 55 CPPCR(W)R
Cod Ymarfer: paragraffau 330 – 339

Cod Ymarfer: paragraffau 391: Mae'r rhain i gyd yn faterion cymhleth i esbonio i blentyn, a rhaid i reolwyr yr IRO fod yn fodlon bod y plentyn yn ymwybodol o'u hawliau, ac yn deall beth yw eu hawliau.

UNCRC erthygl 12 / NPS: Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi. Byddwn yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis p'un a ydych chi am gymryd rhan.

Byddwn ni yn:
- gwrando ar eich barn, profiadau a syniadau ac yn eich cymryd o ddifrif
- gweithio gyda chi ar y pethau rydych chi'n dweud sydd yn bwysig
- gwerthfawrogi'r hyn sydd gennych i'w gynnig

## SAFON

17. Mae'r IRO yn sicrhau yr ymgynghorir gyda'r plentyn/person ifanc ymlaen llaw am bwy ddylai gyfrannu at yr adolygiad o'u cynllun gofal a chymorth ac os bydd cyfarfod yn cael ei gynnal, y lleoliad a'u bod yn gyfforddus gyda'r rhai hynny sy'n mynychu

**Cyfraniadau** (gweler Safon 12 hefyd)

17.1 Mae angen cael barn y plentyn/person ifanc cyn y broses adolygu;

17.2 Mae angen cael trafodaeth gyda'r plentyn/person ifanc am barn pwy fydd yn cael ei geisio fel rhan o'r broses adolygu a pham;

17.3 Lle bydd cyfarfod yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses adolygu, dylid ceisio barn y plentyn neu'r person ifanc mewn perthynas â phwy ddylai fod yn bresennol;

17.4 Os bydd cyfarfod yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses adolygu ac nad yw'r plentyn neu berson ifanc yn dymuno cymryd rhan, dylai'r IRO geisio trefnu i'w barn, dymuniadau a theimladau gael eu clywed ar wahân;

17.5 Dylai dogfennau ymgynghori fod yn briodol i oedran ac yn berthnasol i sefyllfa benodol y plentyn.

**Lleoliad**

17.6 Dylid ceisio barn y plentyn/person ifanc am leoliad y cyfarfod adolygu os oes un yn cael ei gynnal. Yn gyffredinol credir bod yr ysgol yn lleoliad amhriodol.

s100(1)(c) sicrhau fod dymuniadau a theimladau a gafwyd gan y plentyn yn cael ystyriaeth briodol gan yr awdurdod lleol

Paragraff 378 Cod Ymarfer: Dylai'r IRO gadeirio cyfarfodydd adolygu'r holl blant sy'n derbyn gofal. Mae cadeirio'r cyfarfod yn galluogi'r IRO i fonitro priodoldeb y cynllun gofal, goruchwylio'r camau rhoi ar waith a phenderfynu p'un a yw'r cerrig milltir a nodir yn y cynllun gofal a chymorth Rhan 6 yn cael eu cyflawni mewn modd amserol. Dylai'r IRO sicrhau fod pawb sy'n ymwneud â'r cyfarfod yn rhoi cyfraniad ystyrlon at y drafodaeth. Bydd hyn yn hwyluso datblygiad penderfyniadau gwybodus am y camau gweithredu tymor byr a hirdymor y bydd eu hangen i ddatblygu cynllun gofal a chymorth y plentyn.

UNCRC erthygl 12 / NPS:

- Mae gennych chi'r hawl i ddysgu ac i fod y gorau y gallwch fod
- Byddwch yn cael cyfleoedd i weithio gydag eraill a gwneud gwahaniaeth
- Rydym am i chi ymwneud â phrofiadau cadarnhaol

Byddwn ni yn:

- Gweithio gyda chi mewn ffyrdd diogel, hwyliog a phleserus
- Gwneud y mwyaf o'r hyn rydych chi'n ei wybod a gwneud pethau sy'n datblygu eich hyder a'ch sgiliau

### Arfer Da

Mae rhai awdurdodau yn ymgynghori gyda'r plentyn/person ifanc, fel rhan o'r broses ymgynghori, o ran pwy yr hoffent fod yn bresennol yn eu hadolygiad, y lleoliad (os yn bosibl cytuno ar gais y person ifanc) a rhediad cyffredinol y cyfarfod, gan gynnwys p'un a yw'r person ifanc yn dymuno cadeirio rhywfaint o'r cyfarfod neu'r cyfarfod i gyd. Mae cadeirio yn gofyn am baratoi gan y person ifanc.

'Nid wyf am i athrawon ddod i'm tŷ.'

'dylai'r holl adolygiadau fod yn bersonol i'r person ifanc a cheisio eu grymuso.'

Pobl ifanc sydd â phrofiad gofal

## SAFON

### 18. Mae'r IRO yn sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn y broses adolygu

Gweler hefyd Safon 12

18.1 Gellir cynnal yr adolygiad o gynllun gofal a chymorth mewn un cyfarfod. Fodd bynnag gallai fod yr un mor briodol i dderbyn amrywiaeth o gyfraniadau a fyddai'n galluogi i'r adolygiad gael ei gwblhau heb gyfarfod ffurfiol

18.2 Os yw'r plentyn/person ifanc yn ei chael hi'n anodd mynychu ac eistedd drwy gyfarfod adolygu, dylid ceisio eu barn er mwyn sicrhau eu bod yn dylanwadu ar yr adolygiad a'r cynllun gofal a chymorth dilynol

18.3 Os bydd cyfarfod adolygu'n cael ei gynnal, dylid ceisio barn y plentyn/person ifanc, ymlaen llaw, ynghylch pwy ddylai fod yn bresennol

18.4 Os bydd cyfarfod yn cael ei gynnal fe rhan o'r adolygiad a bod y plentyn/person ifanc yn dymuno mynychu, dylid eu paratoi'n ddigonol

18.5 Dylid gofyn i'r plentyn/person ifanc ym mha iaith yr hoffent i'r adolygiad gael ei gynnal, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

18.6 Os cynhelir cyfarfod adolygu, dylid ei gynnal er mwyn cydymffurfio â'r safonau cyfranogiad cenedlaethol a safonau'r UNCRC

18.7 Os nad yw ar ffurf un cyfarfod, dylai 'proses' adolygu gymryd hyd at 15 diwrnod gwaith, gyda'r nod o'i gwblhau mewn cyfnod byrrach. Os bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn y ffordd hwn, dylai'r IRO, gweithiwr cymdeithasol y plentyn neu berson ifanc a'r rheolwr tîm sicrhau fod y camau yn dilyn yr adolygiad yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl ac mewn da bryd o fewn yr amserlen a nodwyd o dan Safonau 5 a 10

18.8 Dylai'r IRO gymryd gofal arbennig wrth sicrhau bod y broses adolygu yn galluogi plant neu bobl ifanc sydd ag anawsterau cyfathrebu i wneud cyfraniad llawn at eu hadolygiad eu hunain

18.9 Dylai'r IRO sicrhau, os yw'r plentyn o oedran a dealltwriaeth ddigonol, fod gan y plentyn neu berson ifanc fynediad at ganllawiau Plant yng Nghymru 'Cael gwrandawiad ar ôl eich cyfarfod adolygu'.

s100(1)(c) sicrhau fod dymuniadau a theimladau a gafwyd gan y plentyn yn cael ystyriaeth briodol gan yr awdurdod lleol

Rheoliad 40:

1) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol baratoi polisi ysgrifenedig a'i roi ar waith ynghylch y modd y bydd yn adolygu achosion yn unol â'r Rhan hwn.

2) Rhaid i'r awdrudod cyfrifol ddarparu copi o'i bolisi

   a) i'r plentyn, oni bai y byddai'n amhriodol gwneud hynny, o ystyried oedran a dealltwriaeth y plentyn.

Paragraff 371 Cod Ymarfer: Mae cyfrifoldebau'r IRO yn cynnwys

- Sicrhau y cymerwyd pob cam rhesymol i ganfod, a rhoi ystyriaeth a phwys priodol i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn
- Sicrhau bod y plentyn yn deall goblygiadau unrhyw newidiadau i'r cynllun gofal a chymorth Rhan 6 yn llawn

UNCRC erthygl 12 / NPS:

- Mae gennych chi'r hawl i ddysgu ac i fod y gorau y gallwch fod
- Byddwch yn cael cyfleoedd i weithio gydag eraill a gwneud gwahaniaeth
- Rydym am i chi ymwneud â phrofiadau cadarnhaol

Byddwn ni yn:
- Gweithio gyda chi mewn ffyrdd diogel, hwyliog a phleserus
- Gwneud y mwyaf o'r hyn rydych chi'n ei wybod a gwneud pethau sy'n datblygu eich hyder a'ch sgiliau

'Mae'r holl bobl hynny'n trafod eich bywyd, yn gwneud i chi deimlo gymaint llai na nhw.'

'Byddai wedi bod yn braf cael gwrandawiad gwirioneddol mewn cyfarfod oedd yn ymwneud a'm bywyd.'

Pobl ifanc sydd â phrofiad gofal

## Arfer Da

Yng Nghaerdydd, mae pob adolygiad yn dod i ben drwy ddathlu rhywbeth mae'r plentyn/person ifanc wedi'i wneud yn dda yn ystod y mis blaenorol. Mae'r adolygiad yn dod i ben ar nodyn cadarnhaol bob amser.

Yng Nghaerffili mae'r person ifanc wedi nodi tasgau i'w cwblhau cyn yr adolygiad nesaf, fel eu bod yn teimlo eu bod yn cymryd mwy o ran yn y broses.

Cofiwch nad os rhaid i chi fynychu'r cyfarfod cyfan, efallai eich bod am ddod i mewn ar y dechrau neu'r diwedd yn unig ac fel y gallwch gael diweddariad ar yr hyn wedi cael ei drafod.'

Canllawiau Plant yng Nghymru



**SAFON**

19. Mae'r IRO yn ystyried dull cyfathrebu dewisol y plentyn/person ifanc ac yn ceisio bod yn greadigol yn y ffordd mae'n rheoli'r adolygiad, gan gynnwys ystyried technoleg

19.1 Mae angen i'r IRO sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i drafod pa iaith neu ffurf ar gyfathrebu maen nhw am eu defnyddio;

19.2 Dylid galluogi'r plentyn neu'r person ifanc i gyfrannu at y broses adolygu drwy pa bynnag ddull cyfathrebu maen nhw fwyaf cyfforddus ag ef;

19.3 Dylid cynnal trafodaethau gyda'r plentyn neu'r person ifanc cyn yr adolygiad ynghylch y ffordd orau i sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed;

19.4 Dylid rhoi ystyriaeth i gyfranogwyr adolygu sy'n cyfrannu at y broses adolygu drwy dechnoleg megis skype;

19.5 Dylid rhoi ystyriaeth i bobl ifanc sy'n recordio eu barn, dymuniadau a theimladau eu hunain ar gyfer eu hadolygiad (er y byddai angen bod yn ofalus mewn perthynas â storio/dileu ac ati yn dilyn yr adolygiad)

s100(1)(c) sicrhau fod dymuniadau a theimladau a gafwyd gan y plentyn yn cael ystyriaeth briodol gan yr awdurdod lleol

Rheoliad 40:

1) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol baratoi polisi ysgrifenedig a'i roi ar waith ynghylch y modd y bydd yn adolygu achosion yn unol â'r Rhan hwn.

2) Rhaid i'r awdrudod cyfrifol ddarparu copi o'i bolisi

   a) i'r plentyn, oni bai y byddai'n amhriodol gwneud hynny, o ystyried oedran a dealltwriaeth y plentyn.

Paragraff 371 Cod Ymarfer: Mae cyfrifoldebau'r IRO yn cynnwys

- Sicrhau y cymerwyd pob cam rhesymol i ganfod, a rhoi ystyriaeth a phwys priodol i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn
- Sicrhau bod y plentyn yn deall goblygiadau unrhyw newidiadau i'r cynllun gofal a chymorth Rhan 6 yn llawn

UNCRC / NPS: Mae gennych chi hawl i wybodaeth sydd yn hawdd ei deall ac yn eich galluogi i wneud penderfyniad gwybodus

Byddwn ni yn:
- Darparu gwybodaeth o ansawdd da, clir a hygyrch
- Yn rhoi gwybod i chi pwy sydd am wrando a rhoi gwybod pa wahaniaeth y gallai eich cyfranogiad ei wneud

## Arfer Da

Yng Nghaerffili ac Abertawe mae'r IRO yn annog y person ifanc i gadeirio eu cyfarfod adolygu eu hunain a datblygu eu hagenda eu hunain ar yr hyn yr hoffent siarad amdano.

Yn Abertawe mae plant mor ifanc â phum mlwydd oed yn cael eu hannog i'w cyfarfod adolygu i gymryd rhan tuag at ddiwedd y cyfarfod adolygu.

Mewn nifer o awdurdodau, ar ddiwedd y cyfarfod adolygu, mae pawb yn dweud eu bod wedi clywed rhywbeth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n falch o'r plentyn neu'r person ifanc.

'Mae'r cyfarfodydd adolygu yn rhy ffurfiol.'

Person ifanc â phrofiad gofal

'Mae angen defnyddio ffyrdd newydd a chreadigol o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth gan ddefnyddio TG.'

Y Rhwydwaith Maethu

# PENNOD 8
# Rheoliadau adolygu amgen i reoliad 39

## Gofal seibiant byr

Rheoliad 62(3)(d) CPPCR(W)R: nid yw rheoliad 39 yn berthnasol, ond yn hytrach na hynny –

i) Mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol adolygu achos y plentyn am y tro cyntaf 9 fewn 3 mis i ddechrau'r lleoliad, ac

ii) Mae'n rhaid cynnal yr ail adolygiad ac adolygiadau dilynol heb gyfnod mwy na 6 mis rhyngddynt

## Mabwysiadu

**Lle mae'r awdurdod i leoli (gorchymyn lleoli s21aca) neu rhoi caniatâd (s19 aca))**

Mae'r CPPCR(W)R yn parhau i fod yn berthnasol, ond mae gosodiad ychwanegol o reoliad 37(3) Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005:

37(3) pan fo **awdurdodiad ond nad yw'r plentyn wedi'i osod eto gyda darpar rieni mabwysiadol**, mae'n rhaid i'r AA gynnal adolygiad o achos y plentyn -

a) Dim mwy na tri mis ar ôl y dyddiad pan fo'r asiantaeth yn cael awdurdod i leoli gyntaf; ac

b) Ar ôl hynny dim mwy na chwe mis ar ôl dyddiad yr adolygiad blaenorol,

hyd nes y lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

## Lleoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu

Pan fydd plentyn wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu, mae darpariaethau CPPCR(W)R yn peidio â bodoli ac mae darpariaethau rheoliad 37(4) Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 yn berthnasol:

37(4) lle mae'r **plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu**, mae'n rhaid i'r AA gynnal adolygiad o achos y plentyn –

a) dim mwy na phedair wythnos ar ôl y dyddiad pan fo'r plentyn yn cael ei leoli i'w fabwysiadu;

b) dim mwy na thri mis wedi'r adolygiad cyntaf; ac

c) ar ôl hynny dim mwy na chwe mis ar ôl dyddiad yr adolygiad blaenorol,

oni bai y dychwelir y plentyn i'r asiantaeth gan y darpar fabwysiadwyr neu os gwneir gorchymyn mabwysiadu.

# GEIRFA
## Termau a byrfoddau

**ACA (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)** Y brif ddeddfwriaeth mabwysiadu ar gyfer Cymru a Lloegr

**AA(W)R Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005**. Y rheoliadau sy'n pennu sut y cynhelir adolygiadau pan gaiff plentyn ei leoli gyda darpar rieni mabwysiadol

**Llety o dan s76** Gall plant ddechrau derbyn gofal, ar sail wirfoddol, heb orchymyn llys, naill ai os yw eu rhieni biolegol yn cytuno i'r lletya neu os nad ydynt yn gallu gofalu am eu plentyn

**Agenda** Yr enw ar y rhestr o bethau i'w trafod mewn cyfarfod adolygu

**CA (Deddf Plant 1989)** Y prif ddarn o gyfraith gofal plant yng Nghymru a Lloegr, sy'n nodi sut y dylid gwarchod plant os ydyn nhw'n dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Mae'r Ddeddf Plant hefyd yn cynnwys y gorchmynion cyfraith preifat (gorchmynion trefniadau plant) y gallai person ifanc ddymuno caniatâd y llys i wneud cais amdano os nad ydynt yn dymuno parhau i dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol

**Gorchymyn gofal** Y gorchymyn, a roddir gan y llys teulu, sy'n rhoi cyfrifoldeb rhieni i'r awdurdod lleol. Pan wneir gorchymyn gofal mae'r plentyn neu'r person ifanc yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal

**CCPCR(W)R** Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015. Dyma'r rheoliadau sy'n cwmpasu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

**Plant yng Nghymru** Awduron y canllawiau pobl ifanc i adolygiadau a chorff cenedlaethol sydd yn ymbarél ar gyfer nifer o sefydliadau cenedlaethol sy'n gweithio gyda phlant ac i blant

**Rhieni corfforaethol** Y term a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifoldeb sydd gan awdurdod lleol am blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal. Mae gan holl gynghorwyr etholedig ac uwch reolwr awdurdod lleol gyfrifoldeb cyfunol am y plant yn eu gofal

**ECHR (Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol)** Gwnaed y Confensiwn, sy'n cynnwys erthygl 6 (yr hawl i dreial teg) ac erthygl 8 (yr hawl i fywyd teuluol a phreifat) yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr pan gyflwynwyd Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r ddwy erthygl hyn (a rhywfaint o rai eraill) yn bwysig iawn i rôl yr IRO wrth adolygu a monitro cynllun gofal a chymorth Rhan 6 plentyn neu berson ifanc. Rhaid i'r IRO a gweithiwr cymdeithasol y plentyn neu berson ifanc sicrhau fod yr hawliau hyn ar gyfer y person ifanc yn cael eu cynnal tra eu bod nhw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol

**DRP (proses datrys anghydfod)** Dyma'r broses y bydd yr IRO yn ei defnyddio i geisio datrys unrhyw bryderon sydd ganddo/ganddi gyda gweithiwr cymdeithasol a rheolwr tîm y plentyn neu berson ifanc o ran nad yw'r cynllun gofal er lles pennaf y plentyn ac y gallai fod yn torri eu hawliau dynol

**Pennaeth gwasanaeth** Enw'r uwch reolwr mewn adran gwasanaethau cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y gwasanaethau plant

**HRA (Deddf Hawliau Dynol 1998)** Deddf Senedd y DU a wnaeth y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn rhan o'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr fel y gall pobl (gan gynnwys pobl ifanc sy'n derbyn gofal), mewn rhai amgylchiadau herio awdurdod lleol drwy'r llysoedd am dorri eu hawl i dreial teg (neu wrandawiad neu broses) a hawl i fywyd preifat a theuluol

**Gofalwyr sy'n berthnasau** Y term ar gyfer teulu neu ffrindiau sy'n dod yn ofalwyr maeth ar gyfer plant penodol sydd angen dechrau derbyn gofal. Mae gan nifer o blant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal aelodau o'r teulu (neiniau a theidiau fel arfer) sydd hefyd yn ofalwyr maeth iddynt

**ICO (gorchymyn gofal dros dro)** Gorchymyn tymor byr a roddir, gan y llys teulu, i awdurdod lleol, yn ystod 'achos gofal' lle mae'r awdurdod lleol wedi profi bod sail resymol i gredu fod y plentyn neu berson ifanc yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol os na wneir gorchymyn

**LA (awdurdod lleol)** Y corff cyhoeddus/cyngor sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd, eu hamddiffyn pan maen nhw mewn perygl o niwed a gofyn am gyfrifoldeb rhieni drostynt os ydynt yn credu nad yw er lles pennaf y plentyn neu berson ifanc i aros gartref

**'derbyn gofal'** Y term cyffredinol ar gyfer plant sydd naill ai â gorchymyn gofal dros dro neu orchymyn gofal neu y mae eu rhieni wedi cydsynio i'w lletya'n wirfoddol, neu sy'n cael eu hatal rhag gofalu amdanynt

**PR Cyfrifoldeb rhieni** 'Yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant i blentyn yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i (h)eiddo.' (s3 Deddf Plant 1989). Mae gan bob mam a'r rhan fwyaf o dadau gyfrifoldeb rhieni. Pan wneir gorchymyn gofal mae'r awdurdod lleol yn ennill cyfrifoldeb rhieni ac yn ei rannu â rhieni

**PO (gorchymyn lleoli)** Gorchymyn a wneir gan y llys teulu, os yw'n cytuno â chynllun awdurdod lleol i fabwysiadu ar gyfer plentyn. Mae gorchymyn lleoli yn caniatáu i awdurdod lleol leoli plentyn gyda darpar rieni mabwysiadol

**PWP (lleoli gyda rhieni)** Weithiau bydd plant â gorchmynion gofal neu orchmynion gofal dros dro dal yn byw gyda'u rhieni biolegol, neu'n cael eu lleoli yn ôl gyda nhw. Mae rheoliadau, sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllunio Gofal. Rheoliadau Lleoli ac Adolygu Achos (Cymru) 2015, sy'n nodi beth mae'n rhaid i awdurdod lleol wirio cyn y gallant leoli plentyn gartref pan fo'r llys wedi rhoi cyfrifoldeb rhieni iddyn nhw

**Rheolwr gwasanaeth** Rheolwr yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol sy'n gweithio o dan bennaeth y gwasanaeth ac sy'n rheolwr ar gyfer rheolwr tîm y gweithiwr cymdeithasol

**Statudol** Mae'r gair yn golygu fod rhywbeth wedi'i osod mewn statud (Deddf Seneddol) ac felly mae'n rhaid ei ddilyn. Mae Cod Ymarfer Rhan 6 yn 'ganllaw statudol' ac felly mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei ddilyn.

**Gweithiwr cymdeithasol** Y person cymwys sydd â chyfrifoldeb ar gyfer y gwaith o sicrhau fod plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal yn cael gofal da yn eu cartref maeth neu gartref preswyl a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu o ran iechyd, yn y feithrinfa, ysgol neu goleg a'u bod yn cael y math a'r lefel iawn o gyswllt gyda'r teulu

**Rheolwr tîm** Y gweithiwr cymdeithasol profiadol sy'n rheoli ac yn goruchwylio gwaith y gweithiwr cymdeithasol. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cael eu trefnu i 'dimau' a'r rheolwr tîm sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y tîm. Mae rheolwr y gwasanaeth yn rheoli'r rheolwr tîm



**AFA CYMRU**

Mae'r Gymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu Cymru (AFA Cymru) yn elusen yng Nghymru sy'n hyrwyddo arfer da ar draws ehangder cynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn cynnig cyngor, hyfforddiant ac ymgynghoriaeth i weithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd i gefnogi arfer gorau.

Cyflogir AFA Cymru o dan ymbarél Cymdeithas Plant Dewi Sant ac fe'i ariennir yn rhannol gan grant Llywodraeth Cymru.

Os y dymunwch lawrlwytho mwy o gopïau o'r canllaw hwn, ewch i'n gwefan

AFA Cymru
d/o Plant yng Nghymru,
25 Windsor Place,
Caerdydd CF10 3BZ

F: 02920 761155

AFA Cymru
W2 Canolfan Fusnes Morfa Clwyd,
84 Ffordd Marsh, Y Rhyl
Sir Ddinbych LL18 2AF

F: 01745 336336

www. afacymru.org